This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

**Usage guidelines**

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

+ *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.

+ *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.

+ *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.

+ *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

**About Google Book Search**

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at http://books.google.com/

6000890100

# BLODAU

Y

# GLYNN,

GAN

BENJAMIN JONES
(GLANCALEDFFRWD).
COED Y PARK, ST. ANN'S,

BANGOR:
ARGRAFFWYD GAN J. K. DOUGLAS, AGER-ARGRAFFYDD.

1871.

D. 14775. f. 4

BODLEIAN
20·7·1897
LIBRARY

CYMERIR

Y R A N R H Y D E D D

'O GYFLWYNO

Y GYFROL FECHAN HON

I SYLW A NODDED YR YSGOLHAIG PARCHEDIG,

DAVID WALTER THOMAS, M.A.

INCUMBENT ST. ANN'S,

A

DEON GWLADOL ARLLECHWEDD.

# RHAGYMADRODD.

---

Anwyl Ddarllenydd,—Nid yw y darnau barddonol a rhyddieithiol hyn, yn nghyd a degau o ganeuon a thraethodau eraill o eiddo yr awdwr, pa rai a ymddangosodd o dro i dro yn ysbaid y blynyddoedd aeth heibio yn "Yr Eglwysydd," "Yr Haul," "Y Cyfaill Eglwysig," a "Baner y Groes," ond yn unig ffrwyth difyrion ei fyfyrdodau yn ei oriau hamddenol, ac os bydd i rhyw rai gael cymmaint o bleser ac adeiladaeth i'r meddwl wrth ei darllen ac a gafodd ef wrth eu cyfansoddi, bydd hyny yn ddigon o wobr ganddo am ei anturiaeth yn eu dwyn allan trwy y wasg Gymreig.

Yr eiddoch yn rhwymau cariad,

BENJAMIN JONES,

Coed-y-Park, St. Ann's,

Bangor.

*Mai 10fed,* 1871.

# CYNWYSIAD.


| | TUDAL. |
|---|---|
| CYFLWYNIAD | 3 |
| RHAGYMADRODD | 5 |

## BARDDONIAETH.

| | |
|---|---|
| Y DDRAENEN WEN | 1 |
| YR ENAID PRYDERUS | 2 |
| Y GOLEUDY | 4 |
| Y FFYNON AR Y BRYN | 5 |
| LLYGAID Y DYDD | 7 |
| PARADWYS | 8 |
| LLAIS Y NEFOEDD SERENOG | 11 |
| BEDDROD Y CRISTION | 12 |
| CRAIG YR OESOEDD | 19 |
| Y CROESHOELIAD | 21 |
| UNIGEDD | 23 |
| YR ADERYN BACH | 24 |
| GOLEUNI YN Y GLYN | 26 |
| ADGOFION IEUENGCTYD | 28 |
| RHOSYN SARON | 31 |
| GWAWR Y BORAU | 32 |
| Y BEIBL | 34 |

TUDAL.

Yr Afon Ogwen . . . . . 36

Y Gwyllt Friallu Gwyn . . . . 37

Dydd y Farn. . . . . . 38

Y Bedyddfaen . . . . . 40

Yn Nglyn Cysgod Angeu . . . 41

## RHYDDIAITH.

Prydnhawn Sul Hafaidd yn Nghymru . 44

Yr Eglwys . . . . . . 54

Myfyrdodau mewn Mynwent . . 63

Anfarwoldeb yr Enaid . . . 70

Awr o Fyfyrdodau o aelgerth y Mynydd . 77

# BLODAU Y GLYNN.

---

## Y DDRAENEN WEN.

Wrth rodio'r haf trwy'r werdd-las ddôl,
   Canfyddais ddraenen wen,
A blodau glân aroglber clws
   Yn goron ar ei phen.

O'i gweled eilwaith auaf oer,
   Pan oedd y rhew a'i rym
Yn gwywo'r tir, y ddraenen wen
   A safai 'n bigau llym.

Fel draenen wen yw pleser byd,
   Mor glws i'r meddwl yw;
Yn ffroenau'r nwyd arogla'n ber,
   Fel blodau teg eu rhyw.

Ond pan êl heibio'i hafaidd drem
   Gadawa bigau llym,
Golynant gan euogrwydd prudd,
   Yr enaid gyda grym.

A

## YR ENAID PRYDERUS.

---

Pryderus enaid, ysgwyd o dy gur,
Ac na ddygyfor fel ystormus fôr;
Gan fwrlwm nychlyd ing nes lladd dy hedd;
Pam nytha anfoddlonrwydd dan dy fron,
Gwenwynig bryf, gwtoga edau'th oes?
Os darfu it' trwy ffol ddychmygion prudd,
Droi gwinoedd hedd yn wermod chwerw gwae,
Nes bod yn adyn it' dy hun yn faich,
A chadwen gofid fel rhyw gysgod cryf,
Yn gwasgu'th babell at y tywyll fedd;
Hen elyn marwol a wna hedd yn wae,
Ac ar obenydd pluog teuna ddrain;
Gan chwerwi'r byd, a difa gobaith oes;
Na wau cadwynau erchyll it' dy hun,
Pereiddia'th gwpan a gwin melys hedd;
Mewn byd fel hwn lle treigla gofid certh
Ar gefn pob awel chwyth ei farwol wynt;
Tawela'n ddoeth, ni wna gorbryder dwfn
Ond trengu hedd, a bwyta'r cnawd yn fyw;
Pam chwydda ingol ddagrau dros dy rudd,
Gan chwerwi'th gur, a difa ffrwd dy waed;
A gwasgu'th deimlad rhwng mynyddau ing,
Nes sudda'th galon drymaidd fyd i lawr;
Na ad i bruddglwyf ysu'th dyner fron,
Trymha dy glwyf, a chwerwa'th feddwl syn;
Pawb deithiant fywyd brau trwy stormydd blin,
A phigau llym o'r blodau tecaf gwyd;
Yn lle ymdrechu deall dirgel ffyrdd
Rhagluniaeth Duw, a rhydd ewyllys dyn,
Ymostwng i gyfiawnder Dwyfol rym,
Ewyllys ddoeth i'w ei chyfrinion cudd;

Tynghedfen ddyrus sioma obaith dyn,
Gan wau yr oll yn groes i'w uchel gais;
Na flina'th ddeall â'r dirgelion, gad
Eu tynged i dy Dduw, dy Lywydd doeth,
Pob dirgel elfen, a'u dylanwad cudd
Ar feddwl dyn, sy'n ol ei arfaeth Ef;
Siomedig yw y byd, try'r llon i wae,
Ni elwir doe yn ôl pe'r wylet waed;
Na chred fod llwybrau oes rhwng tynged ddall,
Tu ol 'ith holl weithredoedd dyrys di,
Mae dirgel law Rhagluniaeth fawr y nef;
Fe'n dysgir fod cyfrinol bethau cudd,
I ddiben doeth, dan lygaid dwyfol Fod,
A gwialen serch i'w hoff gyndynol blant,
Gan dyner Dad, yw ei geryddon Ef.
Os yw cysgodion dyfnion bethau cudd,
Tu draw i allu dy ddirnadaeth syn;
Er hyny cyfiawn ydynt oll, a gwawr
Bytholfyd gyfyd trwy y caddug tew;
Yn lle hiraethu'n brudd am farwol fyd,
Par'to dy ffordd i arall nefol wlad;
Ymrô i bleser pur, addola Dduw;
A llygaid ffydd dyrchafa'th wylaidd lef,
Mewn tyner weddi, fry at Iesu Grist.
Mae Ef yn nawdd i'r gwan, a chadarn graig,
A gall â llygaid serch, droi'th nos yn ddydd;
Mor aml teyrnasa rhinwedd gyda gwae,
Tyf ffrwythau ing ar bren gwybodaeth teg;
Trwy niwl y glyn, ar aden cyfnos lwyd,
Daw melys gwsg i esmwythau dy boen;
Dros gaerau amser, hed dy fywiol fflam,
Yn angau loes, i wynfyd bywyd pur;
Tu draw i borth y bedd, mae glanau gwyrdd,
Ardaloedd hedd, cartrefle'r ysbryd byth;
Lle troi'r cysgodion nos yn oleu dydd,

Tyr gwawr ar d'wyllwch y dirgelion oll;
A llusern ffydd trwy ddu-nos amser gwel,
Cysgodau aur, yr anweledig fyd;
Paradwys deg, gwin melys gobaith ŷf;
Trwy aberth Crist, cwyd haul tragwyddol ddydd
Ar niwldarth oer a thywyll porth y bedd;
O lwch y glyn, cei gorph ysbrydol pur,
Ar ddelw'r Duw, orchfygodd frenin braw.

---

## Y GOLEUDY.

(CHWECH O'R PENNILLION YN GYFIEITHIAD.)

---

Gerwindeb yr eigion ar noswaith oer ddu,
  Crochruad corwyntoedd y nefoedd,
Wnai'r goelcerth i'm llygaid o'r gwyll yn fwy cu
  Na phan oedd yr haul ar y dyfroedd.

Lleddf furmur gyfodai fel syllwn mewn braw
  Ar ferw gwyrdd-donog y dyfnfor,
O fflam y goleudy ar ynys wen draw
  Fel seren yn nghanol y cefnfor.

I'w nhyth ar y geulan aeth gwylan y môr,
  Pysgotwr i'w fwth rhwng y creigiau,
A'r morwr pryderus ymbiliai yr Ior,
  Dawelu y mellt ar taranau.

Ei gwch bach a hwyliai yn flin ac yn wan
  Trwy'r tonau wrth fflam y goleuni;
Rhwng creigiog draethellau cadd borthladd a glan
  Er ymchwydd y môr a'i drochioni.

**A fy llygaid yn llyn o aelgerth y bryn,**
**Edrychwn ar ymdrech y morwr,**
**Tra thân y Goleudy lywerchai yn wyn,**
**Glan seren waredol y dyfnddwr.**

**Dychymyg fy enaid o hyd a rydd lam**
**At ymdrech y cwch ar y weilgi,**
**Ond adgof fy mreuddwyd arddengys y fflam**
**A fflachiai ar fynwes y genlli.**

**Yn afon marwolaeth ger traethell y bedd**
**Wrth forio i fro anfarwoldeb,**
**Cyfoded glan angel trugaredd a hedd,**
**Fel seren yn môr tragwyddoldeb.**

**Wrth lewyrch ei wenau haul gobaith a ffydd**
**Belydrant drwy'r niwl ar y dyfroedd,**
**Er rhuad y 'stormydd wrth seren y dydd**
**Cawn olwg ar Graig wen yr oesoedd.**

**Tywysa gwch bywyd dros ymchwydd y dòn**
**I hafaidd borth gwlad y goleuni;**
**O'i bryniau byth-wyrddion cawn edrych yn llon,**
**Ar rym yr Iorddonen a'i chenlli.**

---

## Y FFYNON AR Y BRYN.

---

**Is derwen hen ganghenog,**
**Ar ochr y gwyrddlas fryn,**
**Rhwng blodau meillion clysion haf**
**Uwch meusydd gwyrdd y glyn,**
**Tryloew ffynon beraidd**
**Rhwng gwynion geryg man,**
**A dardd yn spring arianaidd fyw,**
**Fel llygaid angel glan.**

Yn nrych ei dwfr arianaidd
Mae delw wen y lloer,
A'r disglaer haul melynaidd wawr
Oreura'i dyfroedd oer;
Tra sibrwd lleddf ei thonau
Adseinia furmur per,
Wrth chwareu ar y graian man,
Dan wenau glan y ser.

Ar lan ei thywod melyn
Tyf briaill gwynion man,
Yr adar bach ar gwenyn mwyn
Chwardd gylch ei gwyneb glan;
Yn nwfr ei ffrwd ymlithra
Y dail melynaidd wawr,
A'r ddraenen wen bereiddia'i glan,
A'i blodau balmaidd sawr.

Mor glaer a phur y ffrydia
Ei gloewon dafnau 'mlaen,
Yn deg risialog donau byw
Dros y mwsoglyd faen;
Rhwng gwellt a llysiau peraidd
Ar reuan eurog man,
A delw blodau llygaid dydd
Chwardd ar ei dyfroedd glan.

Bu'r Duw a wnaeth y ffynon
Ar groes Calfaria gynt,
Mewn syched poeth, a chwerw boen
Yn cwyno gyda'r gwynt;
Ond blas ei dyfroedd oerion
Ni chafodd Iesu mawr,
Fel 'r yfom ni o ffynon fyw
Efengyl ber yn awr.

## LLYGAID Y DYDD.

(EFELYCHIAD MEWN RHAN.)

---

Am ser uwch ser pa raid i ni
  Er dangos i'n fod Duw,
Tra serog lygaid bach y dydd
  Ei dyst mor eglur yw.

Ei aur fotymau hafddydd teg
  Sy'n ser y nef ar lawr,
A ser y nos yn llygaid dydd
  Yn yr eangder mawr.

Y Gallu greodd ddaiar werdd,
  A'i lluniodd ef mor gain,
Rodd iddo ei ymylau coch,
  A'i dyner baladr main.

A dwylaw hael fe'i hiliodd ef,
  Er denu sylw dyn,
Ar ddol a bryn yn ddelw deg
  O'i burdeb Ef ei Hun.

O randir oer y fynwent werdd,
  Ar ael y tywyll fedd,
Dilyna'i flodau bach yr haul
  Fel glan angylion hedd.

Y gwanwyn a chwpanau teg,
  Ei flodau gwynion clws,
A gleision ddail, a llygaid aur,
  Addurna fin ein drws.

Ar ael y bryn ymgasgl y plant,
Ei flodau peraidd sawr;
A'i gorsen blyga'r gwenyn man
Dros nyth yr hedydd mawr.

Ar fachlud haul wrth orphwys nos,
Prudd gan ei flodau man,
A'i gorsen fain a blyga'i lawr
Rhwng dail ei fynwes lan.

A chysga, dan arianaidd wlith,
Nes gwawrio'r heulwen glan,
Pan ail ddeffro, gan wenu'n glws,
Yn swn yr adar man.

Ymgrymwn ninau'i weddi'r hwyr,
Gan blethu dwylaw 'nghyd,
A deffro gyda'r llygaid dydd
Yn hedd ein Duw a'r byd.

## PARADWYS.

Ti enaid blin, dros afon angeu gwel
Gysgodau aur y ddirgeledig wlad;
Ei glanau gwyrdd, trwy lygaid heulog ffydd,
Deifl lewyrch glan ar dywyll borth y bedd;
Baradwys deg, lle daw'r dirgelion cudd
I lewyrch haul, gan yr anfeidriol Dduw,
Ardaloedd hedd, cartrefle Iesu Crist,
Ysbrydion pur y saint, ac engyl glan;
Yn awel falmaidd fyw y nef, pa le
Cei delyn aur a choron fel yr haul,
Yn mhell o swn gofidiau'r ddaear hon,
Tu draw i nerth dychymyg meidriol ddyn;

Goruwch yr haul, y lloer, a ser y nos,
Lle'r ail flodeua'r blagur sy'n y bedd,
Yn nefol wisg i'r bythol ysbryd fyw,
Mewn dyddiau braf, ddwg addfed ffrwythau hedd;
Try gobaith yn fwynhad, a llusern ffydd
Ddysgleiria'n haul ar ei phalasau perl;
Pan yr arwisgir ei phreswylwyr pur
A llurig aur hyfrydwch, ac a helm
Na threiddia picell gofid trwyddi byth,
O euraidd flodau pren y bywyd traidd
Lleddf awel falmaidd iechyd, ac a chwyth
Anfarwol einioes ac ieuengctyd, gan
Ymlidio angeu o'i chyffiniau teg;
Pren gwyrddlas heddwch a flagura mwy,
A blodau cariad egyr rhwng ei ddail;
Ac ni bydd amser yno, llyngcir ef
Gan for diderfyn y tragwyddol fyd.
Ar chwim adenydd fel yr enfys lan,
Ehedi trwy ynysoedd teg y wlad,
Gan syllu ar ei rhyfeddodau, ac
Addoli Duw wrth wel'd ei allu mawr;
Cei eistedd dan gysgodau deiliog lwyn,
Ar heulog fryn, i ganu cerddi'r nef,
Gan syllu'n ol, ar ddyrys ffyrdd y glyn,
Mewn golwg glir ar gyfiawn lwybrau Duw,
Wrth afon bur o ddwfr y bywyd, red
O ffynon pleser, ger gorseddfaingc Ior,
Yn loewon ffrydiau ar reuanog aur.
A'u cornant gân 'mysg balmwydd lwyni hedd,
Rhwng glanau gwinwydd a rhosynau per;
Lle'r hongia sypiau eurog grawnwin pur
Rhwng dail cangenau ei bythwyrddion goed;
A chwery llygaid engyl rhwng eu ffrwyth,
Gan sugno gwynfyd o'u neithdaraidd falm,
Ni theuna tywyll nos ei haden brudd

Trwy'r ddedwydd wlad, ond Duw fydd iddi'n haul;
Perarogl gwynfyd dardd o'i bywiol goed,
Na thyfant ond yn hin ei hawyr bur;
Mân raian aur yn llwch ei llwybrau cain,
A'i dysglaer ffyrdd balmantwyd gan y ser;
A'u cylch sy'n frith gan friall nef a rhos
Yn tyfu 'mysg grisialog feini perl;
Ger llaw y rhai, mewn deildai pleser teg,
Ymsercha saint dan heulwen cariad Duw;
Yn feibion iddo byth, a ger ei fron,
Anfeidrol Fod, a'i hanfod ynddo'i hun;
Ni theimlodd calon, ac ni chlywodd clust
Daearol ddyn erioed eu miwsig pêr;
Nis gall ei lygaid wel'd paradwys, ond
Cysgodau'r wlad trwy ddrych dychymig gwan;
Na'i feddwl ddirnad y dedwyddwch pur,
Ga'r gwaredigion glan ar ddelw Duw;
Cyd-etifeddent o gyfiawnder Crist,
Eu Prynwr byw, ac mewn tangnefedd pur
Arsyllu gânt ar ei nefolaidd wedd;
Pob euog nwyd, ac ing, a drengant mwy
Yn awyr bur y wlad, lle triga Duw,
Ardaloedd teg, dros gaer amserol ddydd;
Neithdaraidd win, o'i haddfed ffrwythau dardd,
Byth lawenha y gwaredegol lu:
Mewn hyfryd nefol hoen cânt rodio rhwng
Persawrys lwyni myrr, a myrtwydd gwyrdd;
Yn llais teleidion adar, hedant ar
Adenydd aur, wridgocha gangau'r coed,
Ei phyrth o berl, a'i muriau grisial teg,
Deifl lewyrch clir dros ei heolydd aur;
Ni thyfa cegid gyda'i rhoswydd, ond
Digymysg yw ei hedd, fy enaid blin.

## LLAIS Y NEFOEDD SERENOG.

"Y nefoedd sydd yn datgan gogoniant Duw; a'r ffurfafen sydd yn mynegi gwaith ei ddwylaw Ef."—SALM. xix., 1.

Dadgana nef ogoniant Ior,
Pan wena'r haul ar donau'r mor
Nes gwrido'i wyrddlas bryd;
A glân ffurfafen aur y nef,
Fynega waith ei ddwylaw Ef,
Creawdwr mawr y byd.

Wrth wel'd y ser a'r lleuad dlos
Yn britho awyr las y nos,
Gan wasgar llewyrch glân;
Meddyliem am ei fawredd Ef,
Creawdwr dysglaer hauliau'r nef,
Ac aml fel tywod man.

Y pagan tlawd, er twlled yw,
Yn mellt y nef ganfydda Dduw,
Ac yn y daran ddofn;
Gwel ei ddoethineb mawr a'i nerth,
Yn creu a llywio'r bydoedd certh,
Rhydd arno'i serch a'i ofn.

Y blaned borphor gynffon glaer,
Fflachiadau'r dreigiau yn yr aer,
A'r gogledd wridog wawr;
A holl elfenau gwyllt y nef
Ddadguddiant ei ogoniant Ef,
Creawdydd nefoedd fawr.

Cymylau ffroch a'u dengys Ef,
Yn nghenllif yr ystorom gref,
Nes chwyddo'r ffrydiau mân;

Fel pan fo'r nef yn lliw y rhos,
Dan fwa'r ddysglaer enfys dlos,
A gwrid yr haulwen glân.

Wrth ganfod trefn yr wybren faith,
Esgyna'r meddwl uwch y gwaith
At yr Anfeidrol Fod;
Achosydd y ffurfafen fawr,
Ffynhonell bywyd nef a llawr,
Rhow'n iddo fawl a chlod.

Wrth dremio'r dwfr ar lun y rhôd,
Y syniad yw fod lloer yn bod,
Yn yr eangder mawr;
'Run modd mae bydoedd teg y nef,
Yn gysgod o'i fodolaeth Ef,
Y Duw anfeidrol fawr.

Wrth wel'd wybrenol waith ein Duw,
Ei fawredd gofiwn tra fo'm byw,
Yn ei weithredoedd syn;
A chariad Mab y dwyfol Dad,
Yn marw dros ein beiau'n rhad,
Ar Groes Calfaria fryn.

## BEDDROD Y CRISTION.

Pan lwyd fachluda'r heulwen,
Ar fynwent werdd y Llan,
Eisteddaf dan yr ywen gam,
Gysgoda'r dawel fan;
Gorwedda amwisg farwol
Y Cristion aeth trwy ffydd
I'r gwynfyd, o dwyllwengar fyd,
A'i gwsg mor esmwyth sydd.

Gerllaw y bedd mae'n gorphwys,
Rhwng goedydd duon Yw,
Saif 'r hen fwsoglyd Eglwys Plwy,
Lle bu'n addoli Duw;
Yn nwfr ei llwyd fedydd-faen,
I Grist cyssegrwyd ef;
Bu'n cofio wrth ei hallor hi,
Am ing ei gariad ef.

Mae'r beddrod iddo'n noddfa,
Rhag poen siomedig fyd;
Ond carai ei Greawdwr mawr
Dan ei ofidiau i gyd;
Mor aml am feiau 'r wylai
Ddeigr edifeiriol llaith;
'Rol brwydro â thrafferthion, daeth
I ben ei ingawl daith.

Trwy ddu lanerchi'r fynwent,
Mae beddau'n chwyddo'r glyn;
Ar rai mae nâdd-golofnau teg,
A delwau marmor gwyn;
Mil gwell yw tygned Cristion
Mewn tlawd ddiaddurn fedd,
Os nad yw eu hysbrydoedd hwy,
Yn nghariad Duw a'i hedd.

Cyn-swynion gwag, pleserau
Angofia'r bedd i gyd;
Mor wael yn nghelloedd angau erch
Yw aur a rhwysg y byd:
Holl gyfoeth tlawd marwolion
O dan y lleni trwch,
Yw daiar, bedd, a cholofn faen,
Ar ei ddideimlad lwch.

Ei ruddiau glân liw'r rhosyn,
   Droes yn orwelw drwm;
O fewn y bedd, ei addurn prudd
   Yw'r arch a'i rhwydwe plwm;
A'r ffrwd gerllaw brysura
   Ei thaith i'r mor mewn hedd,
Gysgoda fyrdra'i ddyddiau ef,
   Trwy'r dyrys fyd i'r bedd.

Gylch careg lwyd fwsoglyd,
   Sydd uwch ei feddrod prudd,
Y planwyd tlysion flodau haf,
   Mewn tyner serch a ffydd;
Arblygant wylaidd gofiant,
   Dan dlysog ddagrau gwlith,
Gan esgyn eu aroglant pêr
   I'r gwynawl awel flith.

Yn ngwyll y cyfnos llwydaidd,
   Gysgoda'r fynwent werdd,
Llais cnul yr hwyr-gloch drymaidd sydd
   Yn seinio'i alar gerdd;
A'r adar ganant odlau
   Ar wyrdd rosynau'i fedd,
Fel arlun pur o'i enaid byw
   Mewn hoen yn ngwlad yr hedd.

Nid llwyd lythrenau'i feddfaen
   Sy'n cadw'i enw'n fyw,
Ond rhinwedd ei weithredoedd gynt,
   A'i gariad cu at Dduw;
Ffrwyth nefol ei ysgrifell
   Ar ein calonau sydd,
Yn dangos delw'i enaid mawr
   Trwy'r dwfn gysgodau cudd.

Os yw cain flodau'i feddrod
   Y gauaf'n gwywo'u gwedd,
Ni wywa'i balmwydd gwyrddion byth
   Yr ochor draw i'r bedd;
Mae hyfryd lais yr awel
   O goed y glyn ger llaw,
Fel un yn dwyn rhyw adlais gwàn
   O'i gân yr ochor draw.

Ar rudd y blodau peraidd
   A huliant wellt ei fedd,
Pelydra'r ser arianaidd glân
   Mewn dwfn gariadus hedd;
A'u delw teg yn arwydd
   O'i fywyd peraidd sawr,
Ac o'i ddedwyddwch dwyfol byth
   Mor bur a haul y wawr.

Heb deimlo'i frau adfeiliad
   Na llygredd gwelw'i wedd,
Mewn cell o glai gorwedda'i lwch,
   Yn fwyd i bryf y bedd;
A'r dwyfol serch gartrefodd
   O'i fewn mewn tawel ffydd,
Nid yma mae, ehedodd fry
   Dros gaer amserol ddydd.

'Mysg blodau'r bedd chwareua
   Eurliwiog löyn byw,
Ei hun mewn bedd orweddai gynt
   Yn lindys marw gwyw;
A'i hoenus lòn ail fywyd
   Ar ei adenydd cu,
Gysgoda'i adgyfodiad ef
   O lwch y ddaear ddu.

Fel gronyn noeth gwywedig,
  Gorwedda'n mhridd y bedd;
O swn y byd blinedig hwn
  Gorphwyso mae mewn hedd;
Nes fel y werdd dywysen,
  Ei flagur etto dardd,
Yn nefol wisg i'r enaid glân,
  Mor bur a blodau'r ardd.

O lwch y dail sy'n trengu
  Ar ael ei feddrod oer,
Ail flodau dardd i fyny'r haf
  Mor deg eu gwedd a'r lloer;
'Run modd o'r llwch maluriol
  Sy' dan y blodau per,
Ail gyfyd corph ysbrydol pur,
  A dysglaer fel y ser.

Fel arogl per y blodau,
  Ar fin ei fedd a dardd,
Yw cofio im' y gwenau cu
  Sy dan y blodau hardd;
Min hafaidd nos daw'r ysbryd
  Mewn nefol awel hedd,
I chwareu rhwng y blodau teg
  Sydd yn goreuro'r bedd.

Pwy wyr nad yw'n cyd-deimlo
  A'i gyfaill calon brudd,
Sy'n awr yn gwylio'i farwol wisg,
  A deigryn ar ei rudd;
A'i fod yn gwenu arnaf
  Rhwng cangau'r Ywen ddu,
Gan feddwl am yr amser cawn
  Gydrodio'r Ganaan fry!

O gylch y bedd mae'n gorwedd
   Hen bobl y plwyf i gyd,
Pob oed, tylawd a bonedd byd,
   A'u llwch gymysga 'nghyd;
Trwm, ddu lanerchi pruddion
   Hen fynwent Llan y plwyf,
Yw'r fan i ddyn 'mysg marwol lwch,
   I ddofi dynol nwyf.

Yn swn y lleddf awelon,
   Trwm gwsg, o wydd y byd,
O gyraedd loesau chwerwon oes,
   Mewn dwfn dawelwch mud;
Angylion, ffydd, a gobaith,
   O'i gylch s'yn gwisgo'u sedd,
Nes bwrw mor a'r fynwent werdd,
   Eu meirw'n fyw o'r bedd.

Pwy wyr na fydd yr ysbryd
   Yn syllu yma'i lawr,
Gan ddisgwyl am ei ddynol wisg,
   Yr adgyfodiad mawr.
Ddydd barn ar lwch y Cristion,
   Fe fydd yn ddedwydd iawn,
Pan nithir gan angylion glan,
   Yr us oddiwrth y grawn.

Bedd benthyg gafodd Iesu,
   I roddi ei gorph i lawr,
I orwedd hyd y trydydd dydd,
   Pan drechodd angau mawr;
Yn ngrym ei adgyfodiad,
   Daw'r Cristion eto'n fyw,
O'r beddrod, mewn angylaidd gorph,
   Ar ddelw sanctaidd Duw.

Y blodau tlws aroglber,
   Fel delwau nefol hedd,
Arwyddant anfarwoldeb teg,
   Mewn gwlad tu draw i'r bedd;
Oddiar eu tegwch gwylaidd,
   Dychymyg f'enaid làm
Yn ngoleu'r lloer arianaidd bur
   Fry uwch yr Ywen gam.

Wrth lewyrch Haul y Bywyd,
   Ffy niwl y bedd i gyd,
A llusern ffydd canfyddaf draw
   Gysgodau'r dirgel fyd ;
Lle gwisgir tarian einioes,
   Na threiddia angau trwy
Nefolaidd wisg y Cristion byth,
   Nac ing na gofid mwy.

Y meddwl fu'n ymprydio,
   Pan yn ein byd yn byw,
Yn awr mewn hedd gorphwyso mae
   Ar fynwes dawel Duw ;
Ardysdiai'r awr ddiweddaf,
   Dan ei drangcedig wên,
Ei fod yn myn'd i wynfa lân,
   Er colyn angau hên.

Yr ysbryd sy'n Mharadwys,
   'Mysg blodau bythol wyrdd,
Lle tyf teleidion ffrwythau haf
   Ar goed anfarwol fyrdd ;
Dylifa ffrydiau peraidd,
   Ffynonau dwyfol hedd,
A chwyth awelon balmaidd byw,
   Trwy'r wlad lle nad oes bedd.

## CRAIG YR OESOEDD.

(PEDWAR PENNILL O'R HYMN YN GYFRITHIAD.)

Craig yr Oesoedd, ynot Ti
Rhwygwyd drosof, cuddia fi;
Iesu, boed i'r dwr a'r gwaed,
O dy sanctaidd ystlys gaed,
Olchi'm beiau mawr i gyd,
A fy noddi rhag dy lid.

Trwy dy angau bywyd gaed,
Eiriol drosof werth dy waed;
Deddf cyfiawnder yn dy Iawn,
Gafodd daledigaeth lawn;
Dy drugaredd, Arglwydd, yw
Gobaith f'enaid i gael byw.

Nis gall sêl na'm llafur i,
Byth gwblhau dy gyfraith Di;
Ni wna wylo dagrau'n lli,
Deddf nac offrwm, les i mi,
Heb dy Aberth Di a'th Iawn,
Imi'n waredigaeth lawn.

Dan euog-bwys beiau f'oes,
Ymbil 'rwyf wrth droed dy groes;
Addfwyn Iesu, gwrando'm cri,
Glŷn fy enaid wrthyt Ti;
Trwy dy haeddiant, Brenhin hedd,
Maddeu'm beiau cyn fy medd.

Gwrando d'edifeiriol was,
Llanw'm calon a dy ras;
Gadarn Geidwad, cadw fi
Dan dy aden ddwyfol Di;

Anfon ddawn dy Ysbryd Glân
Arnaf yn nefolaidd dân.

Maddeu fy ammheuaeth prudd,
Rho dangnefedd i'm, a ffydd;
Ar y groes dros euog fyd,
Dygaist faich fy meiau'i gyd;
Eiriol gyda'r Tad yn awr,
Drosof, Archoffeiriad mawr.

Er fy mwyn o'th fodd dy hun,
Iesu, gwisgaist natur dyn;
Arnat dan ofidiau dwys,
Rhoddaf fy mlinedig bwys;
Ffordd i hedd Jehofa'n rhydd,
Trwy dy adgyfodiad sydd.

Nid oes haeddiant ynof fi,
Pwysaf ar dy aberth Di;
Trefnaist lwybr maddeuant rhad,
Trwy d'eiriolaeth gyda'r Tad;
Dadleu wrtho yn y ne'
I Ti farw yn fy lle.

Gwaed dy gymmod yn fy hedd,
Cedwi agoriadau'r bedd;
Derbyn f'ysbryd, Iesu cu,
I'r baradwys ddedwydd fry;
Gwisg ef ar dy ddwyfol wedd,
A fy nghorph o lwch y bedd.

Wrth dy borth rwy'n curo'n awr,
Gwrando, agor, Iesu mawr;
Gad i'm wel'd dy nefol wedd,
Llanw f' enaid a dy hedd,
A'r Jehofa, Un yn Dri,
Trwy dy gariad una fi.

Ing, tylodi, gwawd, a phoen,
Gefaist drosof, addfwyn Oen;
Ond dibechod oeddit Ti,
Yn fy natur euog I;
Mewn tosturi clyw fy llef,
Ar dy orsedd yn y nef.

Tra'n parhau yr einioes hon,
Pan fo ing yn gwasgu'm bron;
Yn mhorth angau, brenhin braw,
O dy flaen y farn a ddaw,
Craig yr Oesoedd, gad i mi
Guddio f'enaid ynot Ti.

## Y CROESHOELIAD.

Arsyllai natur bruddaidd,
  Mewn gwyllt gynhyrfiad syn,
Ar ingoedd yr Eneiniog Dduw,
  Ar groes Calfaria fryn;
Ei draed a'i ddwylaw hoeliwyd
  Yn nghrog rhwng nef a llawr,
A'i drist ddisgyblion wylent draw,
  Dros boen y meichiau mawr.

Uwch ben ei groesbren gwgai,
  Digofus gwmwl du;
O'i lidiog safn ymsaethai mellt
  O gylch ein Prynwr cu;
Gwasgarai nosawl gaddug,
  Nes cuddio haul y nen;
Ond Crist ddioddefai'n dawel ddwys,
  Ac enfys gylch ei ben.

Ei ddwyfol Dad gadawodd
  Dan bwys uffernol loes,
Gan fraw angylion wybient gyd
  A dieifl o gylch ei groes;
Twyllwengar ddynion gablent,
  Ei brudd ochenaid ddofn,
Er hyn yn y tywyllwch tew,
  Llewygant oll gan ofn.

Ei rudd gan waed a gochwyd,
  Trwy'r bigog goron ddrain,
A'i sanctaidd ystlys wanwyd gan
  Lem finiog bicell fain;
Dan faich ein beiau chwysai
  Ddefnynau gwaed i lawr,
A'i galon drymaidd rwygai'n ddwy
  Gan ing ei enaid mawr.

Dan gur y groes a'r fflangell,
  Cleddyfau fflamiog wrid,
Ehedent gylch ei berson glan,
  Mewn dial, gwae, a llid;
Y ser gan fraw ymguddient,
  A rhuai'r werdd-las don,
Dan deimlad trist dros loesion Crist,
  Dirgrynai'r ddaear gron.

Dros ei groeshoelwyr creulon,
  Gweddiai ar ei Dad,
Uwch ben ei groes ysgrifen roed
  Mewn rhagrith, gwawd, a brad;
O'i fodd rhwng lladron trengodd,
  Yn Dduw mewn agwedd gwas,
A gwaed ei Iawn ddyfera'i lawr,
  Nes gwrido'r ddaear las.

Ei dyner fam wylofus,
  Dan ofal Ioan roes,
A'i wisg trwy goelbren ranwyd rhwng
  Y milwyr wrth y groes;
Holl bwys ei berson dwyfol
  Oedd ar y damniol bren,
Rhag gwel'd ei ing yn nghysgod nos,
  Ymguddiai'r lleuad wen.

Dwys lais ei drist riddfanau,
  Adseiniai'n nghoed y glyn,
Aur len y Deml ymrwygai'n ddwy,
  A holltai'r gwyrddlas fryn;
Trwm ddorau'r bedd agorent,
  A rhodiai'r meirw 'nghyd,
Yn nghanol y tywyllwch du
  Wasgarai dros y byd.

Mewn syched poeth dolefai,
  Dan ein camweddau'i gyd,
"Gorphenwyd," a gogwydda'i ben,
  I farw dros y byd;
Gan syndod, ing, ac arswyd,
  Dyrchafai pawb eu cri,
A'r Iesu mawr dan ddwyfol wae
  A drengai drosom ni.

## UNIGEDD.

(EFELYCHIAD O BYRON.)

Eistedd ar fwsoglyd graig, gwrando si
Croew loew ffrwd, rhodio disathr goed,
Yn swn y gwynt, a dringo'r bryn fy hun,
Wrth gân y gôg, a cherdd y fronfaith ber;

Cerdded glan grisialog fôr, gwrando llais
Ei furmur lleddf, ar gregyn gwyn y traeth;
Gwylio llygaid aur yr haul, syllu ar
Osgorddlu teg, arianydd ser y nos;
Gwel'd llûn y lleuad wen yn nofio'r llyn,
O rhwng y grug, a blodau gwyllt y cwm;
Ac ysgafn galon fel ehedydd llon,
Mewn hedd a dyn, a chariad pur at Dduw;
Nid hyny yw unigedd, na nid yw
Ond cymdeithasu â gweithredoedd Duw.

Ond, yr hyri gwag dynoliaeth wâr, gan
Glywed, teimlo, a gwel'd ei murmur gwyllt;
Gwibdeithio'n drist o gylch dinasoedd teg,
A chwerw fron, heb dderbyn bendith neb;
Yn flin ar fyd, a bywyd im' yn wag
O bleser, ond yn llawn o scorpion gwae;
Heb unrhyw gyfaill calon gywir, ond
Gwenheithwyr oll, dan gysgod rhagrith ffals,
Yn bwrw brwmstan llid a malais ar
Ddamnedig saeth, ac ing annobaith fel
Uffernol dân yn ysu'r euog fron;
Heb heddwch Duw, na chariad at
Dwyllwengar ddyn, mewn siom yn suddo'i gell
Y bedd—hyn yw unigedd, dyma yw.

## YR ADERYN BACH.

Tyr'd d'wed yn awr aderyn bach,
Pwy wnaeth dy liw mor gu?
Pwy luniodd dy dynheraidd ffurf,
A'th aur adeiniog blu?

Pwy roddodd it anianol nwyd,
I ganu'n beraidd gu?
A gwau dy nyth rhwng gleision ddail
O fwsog, rhawn, a phlu?

Pwy drochodd yn yr enfys deg,
Dy wisg arianaidd liw?
Felusodd dant dy delyn fwyn,
Er lloni'r galon friw?

Yr angel bach, pwy ddysgodd it
Ehedeg at ein drws,
Ac esgyn fry yr awyr las?
O d'wed aderyn clws.

Dy ddiod yw'r grisialog ddwfr,
Cei ffrwyth y coed yn fwyd,
A chysgu ar y gangen werdd,
Neu yn y mwsog llwyd.

Dy lygaid bach belydrant serch,
Fel tyner angel swyn;
Gan odli lleddf garolau mawl,
O'th big mewn deiliog lwyn.

Mor ber dy gaingc aderyn pur,
Rhwng dail y goedwig werdd,
A'th galon bach yn gartref hedd,
Telori hyfryd gerdd.

Yr haf ymdrochi'n nwfr y ffrwd,
Er gwneud dy blu yn lân;
Yn llon dy big i'r gwyrddlas bren,
Esgynai'i ganu cân.

Bu llawer bachgen fel 'rwyt ti,
Aderyn mwyn, yn llon,
Mewn hedd a diniweidrwydd pur,
Heb bigyn dan eu bron.

Ond tynged mewn twyllwengar ffyrdd
  A'u clwyfodd hwy a'i saeth,
Fel daliwyd llawer 'deryn pur
  Gan rwydau'r fagl yn gaeth.

Rho fenthyg i'm dy edyn chwim,
  Aderyn euraidd glan,
I hedeg fry i'r ardal deg,
  I swn angylaidd gân.

I hyfryd wlad telynau aur,
  A bythol hafaidd ddydd;
Bydd'r ysbryd yno fel 'rwyt ti,
  O bob gofidiau'n rhydd.

## GOLEUNI YN Y GLYN.

Mor glws ar hwyr gysgodau'r glyn,
  Y gwena'r haul mewn hedd;
Mor dawel gwena'r Cristion ar
  Gysgodau glyn y bedd.

Mor ber yw arogl blodau gardd,
  A'r gawod wlaw yr haf;
Mwy pêr arogla rhinwedd cu
  Yn angau'r Cristion claf.

Mor esmwyth chwyth yr awel leddf,
  Prin sibrwd dail yr Yw;
Mor dyner olaf anadl wan,
  Yr hwn sy'n hedd ei Dduw.

Mor hyfryd yw yr enfys deg
  Ar ol drychingoedd blin,
I'r da ar ol ystormydd oes,
  Cwyd enfys dawel hin.

Mor dyner ar y tawel fôr
  Y gwena'r haulwen cu ;
Fel gwena'r da ar ardal hedd,
  Rhwng gwinedd angeu du.

Mae gwawr y dydd yn cilio draw,
  Dan fantell nos mewn hedd ;
Fel tawel sudda'r Cristion i
  Dywyllwch dwfn y bedd.

Mor siriol ar y bryniau gwyrdd
  Yw aur gysgodau'r nos ;
Fel hwyr gysgodion oes y da,
  Dysgleiriant fel y rhos.

'Rol cilio'r haul dros ael y bryn,
  Fe deifl ei wèn o hyd ;
Fel teifl y da ei ddelw'n ôl,
  Wrth farw ar ein byd.

Y dysglaer ser yn gwenu sydd
  Ar arian ddwfr y nant ;
Angylion chwardd o'r nef i lawr,
  Ar ysbryd pur y sant.

Mor siriol yr esgyna'r lloer,
  A'i gwenau ar ei grudd,
Mor dyner hed yr ysbryd fry,
  Tu draw i gaerau'r dydd.

Uwch gloew, siriol wlith y nos,
  Claer eurog seren sydd,
Pan wyla'r llygaid dagrau llaith,
  O'r galon tardda ffydd.

Goleuni'r seren ogledd yn
  Tywysu'r llester sy',
Yn llewyrch Seren Bethlehem,
  Ehed yr yspryd fry.

Dros ael y bryn goleua'r wawr,
  Y nos yn cilio sydd;
Deffroa'r da o gwsg y bedd,
  A chwyd i fythol ddydd.

Mor deg yr una'r loew ffrwd,
  A dyfroedd gwyrdd y môr;
Rhyw ddydd ail unir eto'r corph
  A'r ysbryd gan yr Ior.

Mor hyfryd chwery'r glöyn teg,
  Fu gynt yn farw wyw;
'Rol ing a bedd ca'r Cristion hedd,
  Yn nhawel gartre'i Dduw.

Mor fwyn telora'r adar man,
  Yn ngleision goed y rhiw;
Mor bêr yr odla'r Cristion yn
  Mharadwys gu ei Dduw.

Y blodau clws yn gwenu'n llon,
  Dan haul y nefoedd sydd;
Dan Haul Cyfiawnder chwardd y da,
  Yn y tragwyddol ddydd.

## ADGOFION IEUENGCTYD.

Yn awr rwy'n cofio'r amser gynt,
  Pan oeddwn fachgen bach,
A gwawr ieuengctyd ar fy ngrudd,
  A gwedd a chalon iach;
Yn casglu briall gwyn y ddôl,
  Ac anian i'm yn swyn,
Gan chwilio trwy y dyrys goed,
  Am nyth aderyn mwyn.

Fy mynwes oedd yn dyner fron,
  Heb deimlo twyll y byd,
A chredwn air fy nhad a'm man,
  O flaen y byd i gyd;
Gwrandawn y ffrydiau tyrfus oedd
  Mor bêr eu swn i'm clyw,
A thrwy y bryniau rhedwn draw
  I ddal y glöyn byw.

I hel gwyllt ffrwythau crwydro wnawn
  Trwy'r ddôl o gylch y tŷ.
Gan gredu'n siwr fod bwgan hyll,
  Wrth bob hen berthen ddu;
Gwneud bargud gwynt a throliau bach
  I chwareu, oedd fy mryd,
Gan feddwl mai y bryniau draw
  Derfynai faint y byd.

Wrth edrych ar yr heulwen glan,
  Yn t'wnu'n goch ei bryd,
Rhyfeddwn na bai'n syrthio'i lawr,
  Gan losgi'n ulw'r byd;
Wrth wel'd y lloer dros gopa'r bryn,
  A'i ddelw'n nwfr y lli,
Gofidiwn na bawn ar y bryn,
  I afael ynddi hi.

Meddyliwn am y dysglaer ser,
  Oleuent yn ddiri,
Mai c'nwyllau oeddynt yn y nef
  Fel ein canwyllau ni;
Hiraethwn am adenydd chwim
  I hedeg atynt hwy.
Fel gallwn wel'd eu defnydd teg,
  A dal rhyw un neu ddwy.

Gwneud gerddi bach o gylch y tŷ,
  Oedd fy hyfrydwch i,
A gosod 'lwynion ar y dwfr,
  I droi wrth gwrs y lli ;
Dychmygwn mai colofnau certh,
  A ddaliai'r ddaear lawr,
Ac mai'r mynyddau cribog draw,
  Gynhalia'r nefoedd fawr.

Eisteddwn ar y dorlan iach,
  'Mysg blodau'r briall gwyn,
I edrych ar y pysgod mân
  Yn chwareu'n nwfr y llyn ;
Gan hwylio'r dail fel llongau bach
  I nofio'r disglaer li,
Ac yna i ddal y gwenyn meirch
  Trwy'r llwyni rhedwn i.

Wrth feddwl am fy ieuangc oes,
  Fy nagrau red i lawr,
Pryd arall wrth ei chofio hi,
  Caf swyn a phleser mawr ;
Pryd hyny nid oedd gofal byd,
  Na gofid dan fy mron,
Nid oedd gwybodaeth im' yn swyn,
  Ond rhyw bleserau llon.

Wrth glywed darllen gan fy nhad,
  Am ing a chariad Crist,
Fy nghalon dyner rwygai'n ddwy
  Dros Ei ofidiau trist ;
A dysgai mam Ei weddi dlos
  Yn min y nos i mi,
Fry, ato Ef dyrchafwn lais
  Fy nhaer blentynaidd gri.

Yn Ysgol Sul y pentref bach
  Lle gynt y'm ganwyd i,
Y dysgais ddarllen hanes Crist
  Yn Dduw'n ein natur ni;
Ond trengu wnaeth blynyddoedd braf
  Fy oes blentynaidd i,
Duw baro na ddiflano byth
  Y cof am dani hi.

---

## RHOSYN SARON.

Per yw sawr rhosynaidd flodau,
  Dan belydrau boreu'r wawr;
Per yw llais y gloewon ffrydiau,
  Lifant dros y bryniau'i lawr;
Per yw rhuad murmur tonau
  Ar arianaidd rô y traeth,
Per yw balmaidd anadliadau
  Tyner yr awelon ffraeth.

Per yw gwrando cerddgar odlau,
  Adar gwig ar foreu braf;
Per yw telyn, gwin, a ffrwythau,
  Arogl gerddi hwyr-ddydd haf;
Per yw dyfroedd oer ffynonau,
  I'r sychedig deithiwr gwan,
Per yw tyner serch a gwenau,
  Cysur ydynt yn mhob man.

Ond pereiddiach ydyw Iesu,
  Rhosyn Saron, teg ei wawr;
Balm ei arogl sy'n gwasgwaru,
  Bendith trwy y ddaear fawr;

Awel hedd a bythol fywyd,
  Chwyth ar dywyll lwythau'r byd;
Pan anadla'i ddwyfol Ysbryd,
  Nef a daear dd'ont yn nghyd.

## GWAWR Y BORAU.

O'r dwyrain draw tywyna
  Pelydrau aur y wawr,
Deffroa'r byd a gwena
  Yn ei Greawdwr mawr;
Y lloer a'r ser ymguddiant,
  Ger bron ei llewyrch hi,
A'i gruddiau glan gusanant
  Risialog ddwfr y lli.

Fel dafnau aur nofiadwy,
  Ei phelydr chwery'n dlos,
Ar ael y dail lliwiadwy,
  A blodau gwyllt y rhos;
Y gwridog fryniau wenant
  Dan loew arian wlith,
Colofnau'r mwg ymdroellant,
  I gôl yr awyr frith.

Mewn melyn lan belydrau,
  Ymsaetha'r goleu'i lawr,
Gwisg goron deg rhosynau,
  Gylch pen yr Wyddfa fawr;
A siriol wen llewyrcha
  Nes tanio'r serchog dant,
Ar bur risialog ffrydia
  Hen ruad mawr y Nant.

Gwasgara enfys liwiau
  Yn llif trwy'r wybren lân,
Nes gwrida'r gwyrdd begynau
  Dan ei wybrenol dân;
Y gwenyn man furmurant,
  A chwery'r tyner wyn,
Yr adar hyfryd ganant,
  Yn y tewfrigog lwyn.

Dwfn frefa'r gwartheg llaethog,
  Yn ngwlithog wellt y rhos;
A deffry can y ceiliog,
  Y wlad o gwsg y nos;
Llwynogod wyllt brysurant,
  I'w ffau'n y ceunant mawr,
Y dail a'r blodau ledant
  Eu per foreuol sawr.

Y disglaer haul ymddyrcha,
  Gan deg oreuro'r bryn,
Glas donau'r mor enyna,
  A'i gysgod nofia'r llyn;
Y dyffryn gwyrdd ddillada
  Mewn glan arianaidd liw,
A'i blydr aur a fflamia
  Ar gangau coed y rhiw.

Prydfertha'r cwm a gemau
  Amryliw hardd eu gwawr,
Gan ffaglu'r gwyn gymylau,
  Esgyna megys cawr;
Y moroedd a'r mynyddoedd,
  Yn fflam lewyrcha 'nghyd,
A ffrydia'i dês yn llifoedd,
  Trwy'r nef felynaidd bryd.

Fry, trwy y dwfn dawelwch,
Hed mawl y ddynol fron,
A'r galon, gan ddedwyddwch
Ymchwydda megys ton;
Glan lygaid dydd a chwardda
Ar bob creadur byw,
Ac anian deg y bora
A gyd amlyga Dduw.

## Y BEIBL.

CYFANSODDWYD Y PENNILLION HYN AR OL DARLLEN LLYFR Y DR. COLENSO.

Rho nerth dy Ysbryd Glan, O Dduw,
I gredu'r Beibl tra byddom byw;
Fel bo'm o dan ei ddirfawr bwys,
Yn darllen a gweddio'n ddwys.

Dy bur Ddadguddiad Di dy hun
Yw'r Gair, goruwch amgyffred dyn;
Yn hwn'r anfonaist in' i lawr,
Ddirgelwch y dirgelion mawr.

Boed Llyfr y llyfrau'n llyw i ni,
I fyw yn ol dy gyfraith Di;
Fel byddom dan ei addysg ef,
Yn gymwys ddeiliaid teyrnas nef.

Mewn ffydd a gobaith dysgwn ni,
Dy ddwyfol Ysgrythyrau Di;
Gan gadw dan bob loes a chur,
Reolau dy ewyllys bur.

Boed i dy Lyfr sancteiddiol Di
Gael parch yn ein calonau ni;
Fel bo'm ar bob ystorom gref,
Yn gorphwys ar'i addewid ef.

Y Drindod, ynot Ti dy hun,
A'th gariad at ddamnedig ddyn;
Trwy drefn ein prynedigaeth sy'
I'w gweled yn dy Gyfraith gu.

Mae'n dyweyd am drefn Rhagluniaeth gudd,
Dy ffyrdd mor gyfiawn attom sydd;
Ein cwymp oddi ar dy ddelw Di,
A'th Dduwdod yn ein natur ni.

Am Iesu dan angeuol loes,
Dros ein pechodau ar y groes;
A'i ddwyfol adgyfodiad Ef,
I eiriol drosom yn y nef.

Am ddydd y farn, a'r bythol fyd,
Cartrefle ein heneidiau'i gyd;
Yr hed y da i wynfa lân,
Ond sudda'r drwg yn uffern dân.

Na farnwn d'air, O Arglwydd doeth,
Trwy gyfrwng gwael ein rheswm noeth;
Ar d'wllwch ei ddirgelion ef,
Cawn oleu genyt yn y nef.

Boed in' ei ddarllen gyda ffydd,
Wrth dreiddio i'w ddyfnderoedd cudd;
Ond gwell pe na's ganasid hwy
Sy'n darllen er amheuaeth mwy.

Y pagan mewn tywyllwch sy',
Heb weled Dy Ddadguddiad cu;
Na foed i'w anwybodaeth prudd
Ddydd barn, gyhuddo meibion ffydd.

## YR AFON OGWEN.

Rhwng traed mynyddau'r Nant,
Yr Ogwen lifa,
Fel arian trwy y pant,
Y gwellt a'r bloda';
Ei ffrwd risialog wawr,
Ymdroella'n genlli' i lawr,
Dan odreu'r Chwarel Fawr,
A thrwy Bethesda.

Wrth basio'r felin draw,
Gwna bob cymwynas,
Cyfrana ar bob llaw,
O ddwfr ei mynwas;
Rhwng gwynion geryg mân,
Gan sibrwd peraidd gân,
A heibio'r weithfa wlan,
Trwy goed y Dinas.

Cusana'r sêr ei grudd,
Ar noswaith loergan,
A melyn haul y dydd
Risiala'i graian;
Ar lan ei dyfroedd chwardd
Coedwigoedd derw hardd,
A llus, a mefys dardd
O'i gwerdd-las dorlan.

Wrth basio claddfa'r Llan
A'r Yw canghenog,
Ei mynwes chwydda dan—
Ochenaid donog;
Rhwng gwyrdd berllanau'r glyn,
Ymwylltia'n genllif gwyn,
Yn mlaen o lyn i lyn
Ar dywod eurog.

Y chwyrn gerbydres lam
   Fel ysbryd drosdi,
Y telegraph mewn fflam
   A groesa'i chenlli;
A'r awel rhwng y dail,
A'i murmur bob yn ail,
Wnant delyn heb ei hail,
   I'w per glodfori.

Yn nrych ei gloew li
   Y pysg chwareuant;
Plesera'r bardd yn si
   Ei throellog gornant;
Ac ar ei dwfr yn awr,
Pan sudda'r haul i lawr,
Cysgodau Castell mawr
   Y Penrhyn nofiant.

---

## Y GWYLLT FRIALLU GWYN.

Y gwyllt friallu gwyn,
   Ar heulog fryn sy'n hardd,
Ar lan y ffynon glws,
   Gerllaw ein drws y tardd.

O'r llwyn mwsoglyd gwyrdd,
   Fel myrdd o ddysglaer sêr,
Anadla'r briall gwyn
   Trwy goed y glyn yn bêr.

Eu glân gwppanau byw
   Arddengys Dduw, ein Iôr,
Fel melyn haul y nef,
   Neu dymestl gref y môr.

Ond treng eiddilion ddail
   Disail y briall gwyn,
Dan farug oer a rhew
   A dew orchuddia'r glyn.

Fel gwyn friallu yw
   Pob rhyw langc ieuangc wawr,
Mwyn dlysni, serch, a hedd,
   Saif ar y wedd yn awr.

Ond awel angeu prudd
   Wna'r grudd yn welw'i gwedd;
Fel briall gwywa'i lawr
   Yn awr i gell y bedd.

Am hyn na fyddwn falch,
   Na choegfalch yn y byd;
Ieuengctyd teca'r fro
   I'r gro sy'n myn'd o hyd.

Ond ennill cariad Duw,
   A byw'n ei dawel hedd;
Dedwyddol fydd ei sawr
   Pan b'om yn llawr y bedd.

## DYDD Y FARN.

I'r farn daw Duw, a chryn y byd,
Mynyddoedd siglant megys cryd;
Marchoga gefn y cwmmwl du,
A'r nefoedd heibio gyda rhu.

O'i gylch ymwibia llidiog fellt,
Y creigiau losgant megys gwellt
Ymdodda'r byd, tryferwa'r môr,
Fel tanllyd ffwrn wrth lais yr Iôr.

A tharan floedd, yr udgorn gân,
Try'r ddaear werdd yn hylif tân;
Tywylla'r haul yn nerth ei lef,
A diffydd fflamiog sêr y nef.

Y bryniau lam fel hyrddod byw,
O'r bedd i'r farn daw'r meirw'n fyw;
Eu cyrph a'u henaid una y'nghyd,
I'w barnu gan Bryniawdwr byd.

Digofaint fflamia gylch ei sedd,
Dirgryna'r annuw rhag ei wedd;
Gan lefain ar i'r creigiau certh
Eu cuddio rhag ei lidiog nerth.

Mewn cerbyd fflam eistedda Ef,
A cher ei fron y dyrfa gref;
A'i ddwyfol ddedfryd arnynt hwy
Sefydla byth eu tynged mwy.

Agorir llyfrau'r farn i gyd,
Amlygir dirgel droeau'r byd;
Hed rhinwedd i'r baradwys lân,
Ffy pechod i'w uffernol dân.

Treng amser a daw bythol oes,
A'r annuw i'r ddiderfyn loes;
A diafliaid mewn dirmygol wawd
Ddiferant frwmstan ar eu cnawd.

Euogrwydd fel gwenwynig bryf,
A'i dreiddiol edliwiadau cryf,
Golyna byth eu henaid trist,
Heb obaith am dangnefedd Crist.

Ond Duw â gwên ei ruddiau cu,
Gysura'r gwaredigol lu;
I'r nefol wlad arweinia hwy,
Lle nad oes poen na marw mwy.

O'r adfail oll daw newydd fyd,
I saint ac engyl drigo y'nghyd,
Dan wenau cariad Duw a'i hedd,
Yn ddedwydd ar Ei ddwyfol wedd.

---

## Y BEDYDDFAEN.

Mewn hen Eglwys fwsogedig,
  Gwel, ymdeithydd, ar dy hynt,
Lwyd fedyddfaen cyssegredig,
  Naddwyd gan dy deidiau gynt;
Llawer un fedyddiwyd ynddo
  Wnaed yn wir etifedd nef,
Plant y plwyf am oesoedd etto
  Gristioneiddia'i ddyfroedd ef.

Ar ei farmor mae'n gerfiedig
  Sanctaidd eiriau Cyfraith Duw,
Ynddynt gwel y bedyddiedig
  Mae ordeiniad Iesu yw;
To ar do o blant yr oesau
  A fedyddiwyd ynddo ef,
Sydd yn nhawel gwsg eu beddau,
  A'u heneidiau yn y nef.

Pa sawl gwyliau oer Nadolig,
  Yr addurnwyd ef â dail,
Blodau'r gauaf yn blethedig
  A bythwyrddion bob yn ail;
Llawer cyngor, cred, a phader,
  Glywid yn ei gôr a'r gân,
Wrth fedyddio wawr a gosber—
  Dyma borth yr Eglwys lân.

Aml i un yn enw'r Drindod
 A fedyddiwyd ynddo ef,
Ond er hyny, heb gydnabod,
 Wrth yr allor Frenin nef,
Pa sawl un o'r rhai daenellwyd
 Yn medyddfaen llwyd y Llan,
Trwy y dwyfol waed a olchwyd,
 Nef ddadguddia yn y man.

## YN NGLYN CYSGOD ANGEU.

O! Dduw ar wely marw'n gaeth
 Mor brudd fuaswn i,
Pe na's gallaswn godi saeth
 Fy ngweddi atat Ti.

Ffodd holl bleserau haf fy oes
 Pan ddaeth y gauaf ddydd;
Wylofain 'rwyf wrth droed dy groes
 Mewn edifeirwch prudd.

Llem wialen dy geryddon Di
 Yn dangos beiau sydd;
Fel dengys nos y ser i mi
 Na's gwelaf heulog ddydd.

'Rol cilio gobaith bywyd cu
 Oddiar fy ngwelw rudd,
Caf nefol belydr oddi fry
 Wrth lewyrch llusern ffydd.

Yn ngrym'r Iorddonen llechaf dan
 Dy aden serchog Di;
'Rol mordaith flin canfyddaf lan
 O sŵn y tonog li'.

Dy aberth i'r pechadur sydd
Yn feddyginiaeth lawn;
Fy enaid trwy'r dirgelion cudd
Sy'n gorphwys ar dy Iawn.

Er fod dy ddirgel ffyrdd, O Dduw,
Uwchlaw fy neall i,
Rhyw ddydd caf wel'd mae cyfiawn yw
Dy holl weithredoedd Di.

Os ydyw ffrwd fy einioes brudd
Mewn sain gyffrous yn awr,
Troi Di fy nos yn heulog ddydd
Yn nhragwyddoldeb mawr.

Ond, O! fy mynwes eto sydd
Yn dyner ddynol fron,
Dirwasgu mae adgofion prudd
Fy enaid 'renyd hon.

Rhagluniaeth ddyrys ddarfu wau
Fy holl drefniadau'n groes
Cwtogwyd edau f'einioes frau
Gan dyngedfenau f'oes.

O aelgerth bryn fy llafur af—
Trwy'r glyn i'r tywyll fedd;
O fewn ei randir gorphwys gaf,
Mewn tawel hûn a hedd.

Addfwyn Iesu, a gwaed dy groes
Glanha fy meiau i,
Yn nghyfyng wasgfa angeu loes
O Dduw, na wrthod fi.

Eithafoedd tragwyddoldeb sydd
O'm blaen fel dirgel fôr;
Gwynebaf ef mewn tawel ffydd
Yn nghadarn law fy Iôr.

Rwy'n morio 'mlaen o don i don,
I'th wyddfod sanctaidd Di;
Yn yr ymdrechfa gyfyng hon
O Arglwydd, cofia fi.

Ffarwel ddwyll-wengar fyd di-hedd,
'Rwy'n mynd i farw 'nawr;
Ail fywyd gaf o borth y bedd,
Yr adgyfodiad mawr.

Ond nid all colyn angeu llym,
Byth ladd fy meddwl sy'
Yn cyneu'n seren nefol rym,
Gylch fy naearol dŷ.

Mae dirgel, anweledig fflam
Fy rhan anfarwol i,
I'r bythol fyd ar roddi llam
O derbyn hi fy Rhi.

Rwyn'n tybio gwel'd trwy wyll y nos,
Gysgodau'r nefol wlad,
Blodeua'r saint fel hafaidd ros,
Yn hedd eu dwyfol Dad.

I Ti fy Nuw, Tywysog hedd
A chadarn Graig yr af;
Rhoi pwys fy mai ar fin fy medd
Ar dy drugaredd wnaf.

# RHYDDIAITH.

## PRYDNAWN SUL HAFAIDD YN NGHYMRU.

Yn awr, ar wyll nos Sul teg o haf hir-felyn tesog a hawddgar, sanctaidd ddydd y Brenin mawr, rhodiwyf gyda theimladau syn-addolgar, a meddwl dwys-fyfyriol, heibio glan afonig risialog a greuanaidd, ar hyd llwybr cul, addurnedig a blodau gwylltion, ag sydd yn arwain trwy lwyn o goed deiliog i ochr bryn gwyrdd-las, gerllaw pentref gwledig fy nghenedigaeth, yn ardal brydferth Chwarel y Penrhyn. Ac yma yn nghanol natur, yr eisteddaf dan gysgod derwen gauadfrig, ar lan ffynon loew leddf, i syllu ar brydferthion anian deg, ac ar ymdaith y trigolion i'r addoldai hwyrol; teimlaf fy ysbryd wedi ei foddhau, a'm calon wedi ei lloni gan ddyledswyddau y dydd, a gorphwys math o dawelwch difrifol a chyssegredig ar fryn a chwm, coedwig ac aber, gwig a glyn, fel pe bai anian ei hun yn gwybod fod y dydd yn ddydd

neillduedig i addoli y Jehofah. Y mae natur wedi mantellu gwyneb y maes â blodau teleidion; yr awyrgylch yn hafaidd deg, ac ambell gwmwl ysgafn brithwyn yn addurno ei heurog fynwes, a'r ddaiar yn gorphwys yn dawel-lonydd dan faich ei grawnsypiau melyn-addfed, yn nghyd a'i llwyni gwyrdd-ddeiliog a pherarogl-aidd; ar gwres tyner serchog yn peri i dyfiant gwyrdd-lesni y tir ymddangos braidd yn ganfyddadwy; a'r rhosyn gwridog yn plygu ei ben dan bwysau y gwlith mel-lifeiriol, sy'n disgyn yn loewon berlau trwy byrth euraidd y dwyrain, a'i neithdaraidd falm yn esgyn i fyny yn arogl-darth hwyrol o foliant i'r Creawdwr mawr, a cholofnau ysgafn ddolenog y mwg o'r bwthyn gwledig gerllaw yn ymdroelli yn dawel i wyneb y nefoedd, yr hon sydd fel gwydr gloew aml-liwiog yn ei dderbyn i'w mynwes, a minnau yn cael anadlu awel dyner natur, a mwynhau ei gwen serchog. Yn wir, y mae'n ymddangos i mi fod y dydd hwn yn gwisgo llawer o wedd Paradwys, a'r neb a rodio ynddo, ac a sylwa ar brydferthion anian gyda theimlad o ddefosiwn addolgar, a gaiff ddigon i lanw ei fyfyrdod, a difyru ei galon. Dyma y pryd y mae rhywbeth tebyg i gymundeb rhwng nef a daear, dyma yr amser y mae terfynau y ddeufyd fel yn ymgyfarfod â'u gilydd, a theimlem fel be gallem âg un cam fyned o'r naill i'r llall. Un o'r dyddiau hyny nas gallant farw ydyw, ond sydd yn dyfod yn rhan o fywyd ei hun. Y Sabbath yw yr hyfryd ddydd a daena lawenydd trwy y greadigaeth; tyn hwn yr iau oddi ar ysgwydd yr anifail lluddedig. At hwn y cyfeiria y llafurwr ei olygon trwy ganol wythnos o ludded a chwys, fel y dydd

a ddwg orphwysdra i'w aelodau blinedig. Yn awr y mae y gweithfeydd yn ddistaw, pob peth yn dawel o amgylch, a'r cyfan yn fanteisiol i feddwl dyn ymgodi yn addolgar at ei Creawdwr a'i Waredwr, i ddadflino natur, a gosod serchiadau yr enaid ar y pethau sydd uchod. Heddyw ni chlywir twrf y morthwyl ar yr eingion, y llif yn y pren, y fwyell yn y coed, na chân yr aradrwr yn y maes—dim, oddigerth swn dwfn-dreiddiol y canu soniarus sydd yn ymdreiglo yn donau pêr o fiwsig nefolaidd trwy awelon balmaidd yr hwyr o'r cyfarfod gweddi syml yn y bwthyn gwladaidd gerllaw; tôn ar ol tôn yn taro ar fy nghlyw a'm calon, nes gwefreiddio y natur, a nefoleiddio yr ysbryd, gan beri i'r fynwes ddifrifol deimlo braidd yn rhy lawn i'r tafod lefaru, a chnul dwfn hen gloch osber y Llan yn disgyn yn udiadau hirllaes ar fy nglust, gan adseinio ei chynghanedd trwy'r awyrgylch, a'n gwahodd i addoli Arglwydd y nefoedd a'r ddaear, i'r hen Eglwys hybarch a chyssegredig acw, sydd yn ymestyn ei phinacl mynor dan gysgod cwmwl sidanaidd yn y dyffryn coediog draw ymhellder y terfyngylch gloew goch, yn yr hon y bu ein tadau a'n teidiau yn ymgrymu yn addolgar yn ystod y canrifoedd a basiodd, y rhai sydd yn awr yn gorwedd yn dawel oddi tan gangau yr Yw tywyllddu, yn nghysgod y muriau gorchuddiedig gan eiddew bythwyrddion, yn yr hen fynwent sydd yn amgylchynu yr Eglwys henafol a mwsoglyd hon, a braidd na ddychmygwn fod eu hysbrydoedd yn cynniwair yn y brigau duon i syllu ar eu plant yn addoli Duw eu tadau ar yr un llanerch sanctaidd ac y buont hwythau yn ei addoli arni o'u blaen, gan

wenu yn nefolaidd wrth weled y fath olwg serchog sydd ar y trigolion yn cyrchu i osber hwyrol y llan i gyd-addoli, a derbyn Gair Duw. Dacw yr hen ŵr gwargrymedig yn dyfod trwy y dyffryn gwyrddlas oddi tanaf, gyda'i gam byr, gan bwyso ar ei ffon, a'i wallt gwyn llaes yn hongian yn fodrwyau torchog arianaidd dros ei ysgwyddau, gan sibrydu i'w ysbryd ei hun wrth edrych i fyny i'r bryn, ei fod yntau yn syllu dros fryniau pell amser rhyngddo a gororau y tragwyddol-fyd anweledig, a'i fod trwy ffydd yn dechreu gweled eurliw gwan o lanau yr hyfryd ardaloedd, cartrefle dedwyddwch pur yn nghwmpeini Iesu, ei anwylyd. Canfyddaf yr eneth ieuangc ysgafndroed yn cerdded yn dawel ar hyd llwybr addurnedig a blodau gwylltion persawrus, rhyngddi a'r hen Eglwys gyssegredig, gan ddal y Beibl a'r llyfrau Hymnau a Gweddiau yn ei mynwes âg un llaw, ac arwain ei chwaer fechan a'r llall. A'r tyddynwr yn ymdaith trwy y goedwig acw lle y cyd-blethir awdlau y côr asgellog, a'r fronfaith fel eu brenin, neu angel tyner cariad yn telori ei hymn osber ar frigyn uchaf y dderwen las-ddeiliog fel pe bai yn meddwl fod ei gân yn bereiddiach po nesaf y byddo ei glwyd i'r nef. Aderyn anwyl, y mae dy gaingc yn dyner a pherlesmeiriol, fel pe byddai ysbryd hedd yn cynhyrfu dy fynwes fechan, ac yr ydwyt yn gwneud yn iawn wrth delori mawl gan godi dy olygon diniwaid rhyngot a gwlad yr engyl. Acw y llama y bachgen chwareus gyda glan y llyn dwfn tywyll, lle y gwelir ei ddelw yn nofio gwyneb ei dyfroedd tawel. A'r cloddiwr gwledig yn ymwthio heibio i gilfachau y bryniau, trwy yr eithyn a'r grug blodeuog, yn sŵn

miwsig odlau yr ehedydd, i ddal cymundeb â'i Dduw. Yn wir os myn neb enyn fflam o barch yn ei fynwes i'r Sabbath, deued i rhyw bentref gwladaidd yn Nghymru. Yno y mae yr awelon fel yn sanctaidd ar y dydd hwnw. Gan daflu fy ngolwg dros yr olygfa eang dyner o feusydd melyn addfed, a choedwigoedd gwyrddlas-ddeiliog, canfyddaf greigiau tywyll daneddog glan y mor, yn nghyd a'r tywod grisialaidd sydd yn addurno gorweddfa'r dyfnder mawr, yr hwn y mae ei arwyneb llyfn yn ymddangos fel gwydr gloew eang, gan orphwys mewn tangnefedd tawel, ac edrych braidd mor loewlas a'r ffurfafen ei hunan, a phinaclau y dref acw sy'n sefyll ar ei lan, a'r hen gastell ag sydd ers llawer blwyddyn yn nythle i adar y mor, yn taflu eu cysgodau nofiadol ar ei ddyfroedd grisialog. Trwy godi fy llygaid yn uwch rhyngwyf a'r terfyn-gylch gorllewinol, canfyddaf yr haul, brenin mawr y dydd, ar ol bod yn tywallt diluw o oleuni a gwres mwrn ar ein daear werdd, yn awr yn machludo gan ddisgyn i lawr yr wybren hwyrol yn nghanol anialwch o gymylau melyn sidanog. Mor ddysglaer, mor dawel, mor fawreddus, y mae efe yn suddo i orphwys ar fynwes aurdonog y lli, a'i lewyrch melynaidd yn disgyn yn belydrau euraidd ar y bryniau gwyrddion gyferbyn, gan arianu gilfachau y mynyddoedd gopäog! Mor brydferth, mor aruchel, y mae'n cael ei adlewyrchu ar fynwes glaer-ddofn y llyn llonydd, a'i ddelw yn porphori y glynoedd a'r afonydd â disgleirdeb melyngoch, ac yntau yn ymostwng is, is rhyngddo a llinell y gorllewin, nes yw olwynion ei gerbyd yn chwareu ar ymyl eithaf yr wybren, a'i belydr yn taro ar yr elfen

hylif, nes peri iddo ymddangos fel gwydr nofiadol, a'i donau grisialog wedi eu trwytho â lliwiau y nef, ac yntau yn cilio o'r golwg gan ymadael trwy ddorau rhudddgoch y gorllewin, nes o'r diwedd yr ymddengys yn disgyn i fòr tawel o lanau euraidd, gan daflu llewyrch tyner addfed ar y traethellau nes yr ymddangosasant i'm dychymyg fel wedi eu britho â gemau ac âg aur, a chan gilio o'r tu ol i'r weilgi, britha y terfyngylch â lliwiau rhosynaidd, a gorchuddia wyneb y ddaear â chysgodau ysgafn, gan drwytho yr uchelfeydd âg arian llifeiriol; yna gan ddirgrynu yn llesg ar y brigyn deiliog, y mae ei lewyrch olaf yn trengu, gan draddodi y byd i dywyllni graddol y nos. Dos fyd mawr a chymwynasgar, y mae yn ddrwg gennym os na byddi'n anfarwol. O! na byddai i haul ein bywyd gael machludo gyda'r fath dangnefedd, tawelwch, a dysgleirdeb a'r eiddo ti. Dacw hithau y lloer, brenines y nos; yn dyfod i mewn i'r wybren ddwyreiniol, yn nghanol cysgodau hirion yr hwyr, gan ymgodi yn arafaidd rhwng cilfachau y bryniau arianaidd i honi ei hawdurdod gynhefin i lywodraethu y nos, y mae hi yn edrych yn fawreddus a rhwysgfawr, gan ymddysgleirio wrth fyned rhagddi, a dyfod yn fwy llewyrchus fel y mae hi yn dringo yn uwch, uwch rhyngddi a'r terfyn-gylch, gan wasgaru ei goleuni arianaidd oddiwrth ei chylch prydferth, nes dyfod yn harddwch nef, ac yn llewyrch pob llygaid, a'i phelydrau yn sirioli y byd, a'i delw oleu-wen yn nofio ar donau y glasfor. Y mae yn cael ei dilyn gan y ser hynaws, heirdd lygaid yr wybren, y rhai ydynt o un i un yn taflu eu gorchudd o'r neilldu, ac yn yspeio o'r tu ol i gopäu y creigiau, a rhwng cilfachau y myn-

yddoedd, gan nofio yr eangderau, ac i'w gweled fel cynnifer o lampau tân, ffaglau aur, neu osgorddlu o ysbrydion nosawl yn erlyn eu hymchwiliadau fry trwy y gwagle wybrenol; byd ar ol byd yn gwneud ei ymddangosiad, gan ddringo y terfyngylch i chwareu ei ran ar esgynlawr y nefoedd, nes y mae y nos wedi taenu yn gwbl ei mantell gyfoethog, pan yr ymddengys yr awyr fel wedi ei britho â blodau rhosynog. Y mae gennyf gydymdeimlad neillduol â'r ystlum yma sydd yn ehedeg yn ysgafn o amgylch ogylch uwch fy mhen, fel yr wyf yn disgyn yn hwyrol i lawr y bryn rhyngwyf a bwthyn fy nhad, ac y mae udlais y dyllhauan acw a glywaf o'r pellder yn dwysau fy mynwes. Yn wir, y mae rhyw ysbrydoliaeth rhyfedd mewn anian sydd yn denu fy enaid i'w chymundeb, a dymunwn gipio y fath olwg arni, a'i sefydlu yn fy meddwl dros byth. Mae y cyfryw olygfeydd o werth ammhrisiadwy, gan eu bod yn ein cymmell i gydnabyddiaeth helaethach â mawredd, gallu, a doethineb y Jehofa, ac hefyd yn eangu ein golygiadau syniadol, am gariad y fath Dduw mawr yn ymostwng i roddi ei Fab yn iawn dros gamwedd dyn. Mor fawreddog y gyfundrefn hono a ofynai y fath oleuadau, ac i'r fath uchder aruthrol yr ymgyfyd y meddwl hwnw, yr hwn y rhaid iddo gamu uwchlaw y fath fyd o ogoniant mewn trefn iddo allu myfyrio ar y Bôd sydd eto yn anfeidrol fwy. Pa fawredd bynag sydd i'w ganfod yn ngweithredoedd y greadigaeth, mawredd ei Gwneuthurwr ydyw y cyfan, yr hwn a alwodd y bydoedd i fodolaeth o ddim, ac yn nerthoedd yr hwn y maent yn rhedeg eu gyrfa wybrenol. Mor rhyfeddol ynte yw yr anfeidrol

Dduw ynddo Ei hunan. Y fath swyn a ychwanegir at olygfeydd siriol blodau y maes, a ser y nefoedd, trwy yr ystyriaeth o'r tragwyddol ysbryd, âg sydd yn ffynonhell yr holl greadigaeth.

Ond y mae fy nychymyg yn ehedeg yn ol tu draw i'r golygfeydd Cymreig at y prydnawn Sul cyntaf erioed, dydd gwyl yr Anfeidrol ar ol creadigaeth y byd, pan oedd y ddeuddyn dibechod yn rhodio ymysg blodau gardd paradwys, yn nghymdeithas Duw, a swn caniadau engyl, gan addoli mewn rhyfeddod gyda serchiadau pur a sanctaidd, y pryd hyny yr oedd y gwynt heb ddysgu ocheneidio yn gwneud telyn o fangoed Eden. Rhyw amser rhyfedd, hefyd, oedd y prydnawn Sul cyntaf ar ol y gwymp, pan y safai ein rhieni syrthiedig mewn peisiau crwyn o'r tu allan i'r ardd, gan gyfodi yno allor ac aberthu arni rhyw anifail yn aberth llosg i Dduw, ond yn methu cael yr un fflam ddwyfol o'r nef i'w losgi; yr oedd y Jehovah wedi digio wrthynt, er hyny "gydag awel yr hwyr," dyma Ef yn ei drugaredd yn derbyn eu haberth yn lle eu lladd, gan roddi iddynt addewid o'r Messiah. Buaswn yn hoffi cael treulio prydnawn Sul gyda Moses yn yr anialwch. Dyma y dydd y byddai pawb drwy y gwersyll yn offrymu aberthau yn ôl defodau y ddeddf seremoniol, ac y byddai tân Duw ar yr allor yn difa, fel arwyddlun ofnadwy o ddig y Goruchaf am bechod; ac mewn bwthyn ar lan llyn Tiberias, i syllu ar yr hen Zabuloniad bonheddig, arglwydd y teulu, a'i fynwes yn danllwyth am gyflawni y gyfraith Iuddewig, yn ymgrymu yn addolgar mewn gweddi ar Dduw ei dadau, gan droi ei wyneb at Jerusalem y ddinas gyssegredig.

Ni feddyliai fawr mae y gwr oedd mor hoff gan bysgottwyr y llyn oedd yr Arglwydd Fessiah y disgwyliai gymmaint am ei ddyfodiad; ac hefyd yn Bethania yn nhŷ Lazarus a'i chwiorydd gydag Arglwydd y Bywyd, a'i ganlyn rhwng y cypryswydd uchel, a blodau mwyaf dewisol y dwyrain, i hen synagog y pentref, a gwrando ar Ei lais angylaidd yn egluro yr ysgrythyrau i'r dyrfa fawr synedig a dremiant mewn rhyfeddod ar ei wedd ddwyfol; ac O! mor hyfryd fuasai gennyf gael treulio prydnawn Sul yn hen ddinas sanctaidd Jerusalem, i syllu ar addoliad cysgodol y Deml. Wedi machludo yr haul dros fryn Gibeah, gan ymhofran uwch ben dyffryn Ajalon, gallaswn glywed yr udgorn yn seinio o un o dyrau dwyreiniol mynydd Zion, a gweled pob llygaid yn cyfeirio trwy byrth euraidd y Deml i'w chynteddau o farmor a pherlau cerfiedig. Yno yr oedd yr Archoffeirad yn ei wisg urddasol, a'i odrau wedi ei hamgylchu gan glychau aur a phomgranadau, ac ephod o sidan glas a phorphor ar ei fynwes yn cynnwys enwau y deuddeg patriarch mewn meini perlau, a thalaith aur o gylch ei ben, a'i wregys wedi ei gwau o aur a sidan âg ysgarlad, a'i wallt a'i farf a hongiant 'yn llaes, mor wyned a'r eira. Dynesai ei hunan i'r cyssegr sancteiddiolaf, i wyddfod uniongyrchol y Jehofah, yr hwn yn nyddiau yr hen Deml a breswyliai yn fflam y Shecinah i wneud cymmod dros y genedl trwy aberth. Cawswn weled cannoedd o offeriaid o amgylch allor yr aberthau, pob un a'i thuser aur yn ei law oddi tan gwmwl o berarogl, a gwrandaw ar gôr o ddwy fil o feibion Levi yn canu gyda'u peraidd offerynau cerdd, pan yr es-

gynai gweddiau myrddiwn o bobl at y Jehofah yn arogl balmaidd y poeth-offrwm. Ar yr un pryd a'r olygfa sanctaidd hon, y mae yn ddigon naturiol i feddwl fod y Rhufeiniaid yn nghastell dinas Dafydd, yn addoli Jupiter eu heulun dduw, ac yr aflonyddid addolwyr y Deml gan swn uchel eu tabyrddau pres, a lleisiau barbaraidd eu hydgyrn rhyfel, ac yr esgynai mwg tebyg i fwg yr aberthau Iuddewig oddiar gaerfa eu gwersyll, pa un y cyfodai oddiwrth eu hoffrymau paganaidd. Dychmygaf weled yr Iesu gyda'i olygon llariaidd yn dyfod i fewn trwy borth y Deml, ac â dylanwad ei bresenoldeb yn hwrw y prynwyr ar gwerthwyr allan o'r cyntedd; pan y dywedai rhyw offeiriad wrtho mewn gwawd, "Os byddai iddo droi y pomgranadau aur-gerfiedig a hongiant wrth eu colofnau allan o fwa addurnedig y Deml yn ffrwythau naturiol ac addfed, y credai ef mae Efe oedd y Messiah;" ond edrychai yr Iesu yn dawel, gan barhau i ddysgu y bobl, y rhai a ryfeddant at y geiriau grasusol a ddeuant dros ei wefysau.

# YR EGLWYS.

---

**DARLITH A DRADDODWYD AR SWPER PERTHYNOL I GYFARFOD LLENYDDOL EGLWYSIG GWYR IEUANGC GLANOGWEN, ST. ANN'S, LLANLLECHID, A'R GELLI.**

---

Barchus Lywydd, a'm cyd-eglwyswyr holl,—Yr wyf yn teimlo yn bleser gennyf gael yr anrhydedd o godi ar fy nhraed i gynnyg iechyd da y cyfarfod hwn i'n Tra Pharchedig Arglwydd Esgob, ynghyd a pharchus glerigwyr yr Esgobaeth hon, oblegid llafur a sel y rhan fwyaf o honynt yn ngwaith y weinidogaeth wrth ymdrechu adennill y tir a gollodd hen Eglwys anwyl ein tadau yn y wlad hon, trwy ddiogi ac esgeulusdra yn y canrifoedd a aethant heibio, llwyddiant pa un sydd yn gorwedd yn agos iawn at fy nghalon bob amser. Hi ydyw hen Eglwys y Cymry. Mae Eglwys y Cymry mor hen bron a Christionogaeth ei hun. Y mae yn naturiol iddi weithiau son am ei hynafiaeth, am y dorf ddirif o seintiau a fagodd, ac a feithrinodd yn ei mynwes, ac a'i rhoes i orphwys "mewn gwir ddiogel obaith o adgyfodiad gwell;" a'r modd y disgynodd hi ei hun trwy lawer o beryglon a phrofedigaethau o oes i oes hyd yn awr; hi sydd wedi dioddef pwys y dydd a'r gwres yn y wlad hon; hi ddioddefodd yr erledig-

aethau alaethus er mwyn Duw a Christ. A chan ei bod hi fel hyn, *a neb ond hi*, wedi dwyn tystiolaeth gyson yn ein gwlad o blaid y ffydd a roddwyd unwaith i'r saint, o ddechreuad Cristionogaeth, ganddi hi y dylai fod hawl yn serchiadau y bobl yn awr, ac yn wir y mae ei hegwyddorion yn ennil tir yn yr ardal hon y naill flwyddyn ar ol y llall, trwy lafur a diwydrwydd ein gweinidogion parchus presenol; yn nghyd a ffyddlondeb a gweithgarwch ein lleygwyr.

Yr wyf yn credu fod mwy o gymunwyr yn eglwys St. Ann's ei hun yn bresenol, nag oedd yn y ddau blwyf haner canrif yn ol. Yr oedd St. Ann's y pryd hyny fel "myrtwydd yn y pant," allan o olwg ac allan o feddwl, a llawer yn ddigon anwybodus a chulfarn i gredu fod myned i'r Eglwys yn bechod yn erbyn y Goruchaf; ond yn bresenol mae amgylchiadau wedi newid. Y mae St. Ann's fel "dinas ar fryn," a'r plwyfolion yn cyrchu iddi o bob cyfeiriad. Y mae hi yn myned i adeiladu tŷ addoliad perthynol iddi ei hun eto yn mynydd Llandegai, i'r dyben o ymdrechu cael y defaid gwasgaredig yn ol i gorlan eu hen fam, fel y byddo un Eglwys, dan yr un bugail, Iesu Crist, gweddi diweddaf yr hwn oedd am i'w eglwys fod *yn un*, a'i reswm dros hyny oedd, fel y byddai yn gysgod o undeb y Drindod, ac fel y gwybyddai y byd fod Cristionogaeth o darddiad dwyfol. Ac mae y gwirionedd mawr mai *un corph gweledig* ydyw Eglwys Crist i fod ar y ddaear, yn cael ei gymell arnom gan yr holl apostolion a'i gyd-wau trwy eu holl Epistolau fel un o'r gwirioneddau mwyaf pwysig; ac y mae

hen dadau boreuol yr Eglwys yn llefaru yn hyf yn erbyn ymbleidio, llawer o ba rai a fuont yn cydymddiddan â'r Apostolion, a thrwy hyny a gawsant y cyfleustra goreu i ddeall eu meddyliau. Rhaid i undeb y saint fod yn weledig oddi allan cyn y gellir rhoddi prawf i'r byd o'r undeb ysprydol oddi mewn. Y mae diffyg undeb ymysg dilynwyr Tywysog Tangnefedd wedi bod yn "faen tramgwydd ac yn graig rwystr" i lawer pagan rhag troi yn gristion. Ac y mae gwaith "milwyr yr Oen" yn ergydio saethau gwenwynig y naill at y llall trwy eu cyhoeddiadau enwadol, wedi gyru aml i gristion yn amheuwr. Un o ddybenion sefydliad crefydd Iesu Grist oedd i ddwyn tangnefedd ar y ddaear, ond rhaid dyweyd fod ymraniadau wedi dwyn ymryson ac erlidiau crefyddol, ac nis gall y cyfryw ymrafaelion fod o darddiad dwyfol yn yr oes hon mwy nac yn nyddiau yr Apostolion. Dywed St. Paul wrth y Corinthiaid, "Yr wyf yn attolwg i chwi frodyr, yn enw ein Harglwydd Iesu Grist, na byddo ymbleidio yn eich plith." Cymhella yr Apostol i'r Cristionogion "synied yr un peth, a bod yn heddychol, gan fod yn ddyfal i gadw undeb yr ysbryd yn nghwlwm tangnefedd." Mewn undeb y mae nerth, ond y mae ymbleidiau yn gwanhau breniniaethau daearol yn gystal a theyrnas yr Emmanuel, "Canys pob teyrnas wedi ymranu yn ei herbyn ei hun a anghyfaneddir," medd Crist ei hun.

Pan aeth Eglwys y Corinthiaid i ymranu, gan alw eu hunain ar enwau dynion, dangosai yr Apostol St. Paul y gwrthwynebiad mwyaf i neb o honynt alw eu hunain ar ei enw ef. Dychrynai rhag y fath syniad, a gofynai iddynt, "A ranwyd Crist,

a'i yn enw Paul y'ch bedyddiwyd, neu a'i Paul a groeshoeliwyd trosoch?" a dyweda, "tra fyddo yn eu plith gynen ac ymbleidio, eu bod yn rhodio yn ddynol." Ac os afresymol oedd hyn y pryd hyny, pa faint mwy afresymol yn awr ydyw i grefyddwyr alw eu hunain ar enwau dynion ffaeledig? Ni feddyliodd yr Apostolion am roddi un enw ar y rhai a gredent yr efengyl, ond yn unig yr enw cyffredin Cristionogion, er dangos nad oeddynt yn ddilynwyr i neb ond Crist, sefydlydd mawr Cristionogaeth. A chan mae un eglwys a sefydlodd y Messiah a'i Apostolion, dyledswydd Cristionogion ydyw cadw yr undeb i fyny yn ol dymuniad y Pen Mawr.

Rhaid fod pob dyn sy'n darllen y Testament Newydd yn gwybod fod ymbleidio ac ymranu yn cael eu cyfrif ymysg y pechodau mwyaf; eto, yn lle dysgu undeb cyffredinol, y mae y naill blaid yn ymdrechu i ychwanegu deiliaid iddi hi ei hun, a hyny yn gyffredinol a'r draul darostwng y pleidiau eraill. Yr ydym yn credu y dylai pob gweinidog cydwybodol i Grist, yn Ymneillduwyr yn gystal ac Eglwyswyr, bregethu yn onest i'w wrandawyr mai "un corph" allanol o Gristionogion ydyw yr Eglwys i fod ar y ddaear, gan wneud eu goreu tuag at sefydlu yr egwyddor fawr o undeb a chariad Cristionogol ag sydd yn cael ei gosod allan a'i hargymell arnom yn y Beibl, fel y byddo un gorlan dan yr un bugail Iesu Grist, yn llanw Brydain a'r byd.

Gan mai Cristionogaeth sydd i fod yn brif rwymun undeb y gymdeithas ddynol, nid oes dim yn fwy annaturiol na bod y grefydd hono yn rhanedig ynddi hi ei hunan. Y mae rhagor rhwng undeb allanol yr Eglwys âg unffurfiaeth

meddwl personol dyn; nid yw ein bod yn gwahaniaethu ychydig mewn pethau dibwys Cristionogaeth yn un rhwystr ein bod yn aelodau o'r un cymundeb mawr eglwysig. Nid yw fod Cristionogion mewn undeb gweledig â'u gilydd yn gofyn am iddynt fod oll o'r un farn ar bob pwngc o athrawiaeth. "Bydded pob un yn sicr yn ei feddwl ei hun." Ond y mae yn ofynol yn ol rheolau Llyfr Cristionogaeth fod ganddynt y fath gariad at eu gilydd ag a'u huno "mewn cwlwm tangnefedd," yn un corph allanol o Gristionogion, fel ag i allu mwynhau o fwrdd cymundeb yr un Eglwys, y fan lle y dylai yr undeb fod bertheithiaf; gan "oddef eu gilydd mewn cariad," yr hwn yw prif rwymyn yr undeb Cristionogol. A chan mai oddiwrth hen Eglwys anwyl y Cymry y mae Ymneillduwyr parchus ein gwlad wedi deillio, hi sydd i fod yn ganolbwynt ei hundeb drachefn. Ond y mae yn gyfiawnder ynom i addef fod ein brodyr ymneillduol wedi gwneyd llawer iawn tuag at grefyddoli y wlad, pan yr oedd yr Eglwys yn gorwedd mewn difaterwch cysglyd, ond yn awr fel y mae yr Eglwys yn diwygio, ein barn ostyngedig a chydwybodol yw, mae eu dyledswydd ydyw dyfod i'w mynwes yn ol, a bod fel halen iddi i orphen ei deffroi a'i phuro. Y fath olygfa ardderchog a fyddai un Deml brydferth mewn pentref, yn lle tri neu bedwar o addoldai haner gweigion.

Dywed llawer mae yn nyddiau Harri yr Wythfed y dechreuodd ein Heglwys bresenol, yr hyn sydd yn ymddangos i mi yn gamgymeriad mawr. Nid dechreu ein Heglwys a ddarfu y Brenin Harri, ond ei diwygio; ac y mae gwahaniaeth dirfawr rhwng dechreu peth a'i ddiwygio. Yr un esgob-

ion oedd yn yr Eglwys wedi y Diwygiad a chyn y Diwygiad, a'r un oedd yr Eglwysi. Yn debyg fel pe yr edrychem ar y dderwen las-frigog yn tyfu ar y ddôl; y mae hi yn edrych yn llawn tŵf a bywyd; ond yn mhen blynyddau, y mae yr eiddew yn dechreu tyfu drosti, gan orchuddio ei dail a'i brigau, ei llethu a'i dirwasgu. Ond wedi tynu yr eiddew i ffwrdd oddi wrthi, ei rhyddau o'i llyffetheiriau, a'i dwyn yn ol i ryddid, dechreua y dderwen ymnerthu drachefn, a'i changenau a ymestynant yn rhydd. Yr un yw y pren yn barhaus, ni chyfnewidiodd yr eiddew ddim ar natur y dderwen. Yr un modd y cynyddodd yr Eglwys yn bur yn Mhrydain er dyddiau yr Apostolion a Brân Fendigaid, hyd nes y daeth Awstin Fynach â chadwen Pabyddiaeth i'w llyffetheirio a'i dirwasgu; ond ysgydwodd Harri yr VIII yr iau orthrymus hon i ffwrdd oddi ar ei gwar, ac er y pryd hwnw y mae hi yn parhau i gynyddu mewn gwyrddlesni a nerth, fel y dderwen las-ddeiliog a thalgryf.

Neu fel pe yr edrychem ar yr afon Ogwen; y mae hi yn dechreu dylifo yn risialog a disglaer o Lyn Ogwen, a'i dyfroedd gloewon yn murmur i lawr yn bur a grisialaidd, hyd nes y tywyllir ef gan ddyfroedd lleidiog y Galedffrwd; ond erbyn y cyrhaedda Llandegai, y mae yr afon wedi ymlanhau ac ail ymburo, gan ymarllwys i'r mor yn Aberogwen, a'i dwfr mor loew ag erioed. Yr un modd y mae yr Eglwys Brydeinig wedi dylifo i lawr o sefydliad Cristionogaeth yn bur a dihalog. Ond yn nyddiau Awstin, y mae llaid Pabyddiaeth yn dechreu dylifo dros ei gwyneb; er hyny yn nyddiau Harri, y mae yr hen Eglwys yn dechreu ymlanhau a phuro drachefn, gan ymloewi fel y mae hi yn rhedeg i waered atom ni, ac

fe ä yn loewach, loewach yn barhaus hyd ddiwedd amser, pan yr ymarllwys i for tragwyddoldeb, yn ymddisgleirio fel haul y goleuni, yn llewyrch pob llygaid, ac yn harddwch nef a daear. Ac ni ddarfu i Eglwys ein gwlad erioed ymneillduo oddiwrth Babyddiaeth fel yr haerir gan rai, ond Pabyddiaeth a ymneillduodd oddi wrthi hi, trwy gael eu gorfodi i roddi yr hen Lanau yn ol i'r Protestaniaid, ac adeiladu capeli ar wahan iddynt eu hunain. Er engraifft: yn perthyn i'r hen Eglwys Brydeinig yr oedd Eglwys Bangor ar y dechreu, hyd nes y traws-feddianwyd hi gan Eglwys Rhufain, ond yn nyddiau y Brenin Harri adferwyd hi yn ol i'r hen Eglwys Brydeinig, pan y gyrwyd y Pabyddion o honi, gan y rhai y gellir gweled capel ymneillduol ychydig uwchlaw i'r hen Eglwys Gadeiriol y dydd heddyw. Pe yr Eglwys a fuasai wedi ymneillduo oddi wrth Babyddiaeth, y Pabyddion a fuasent yn aros yn yr hen Eglwysi plwyfol, a'r Eglwyswyr yn gorfod adeiladu capeli iddynt eu hunain ar wahan. Ond y ffaith yw, yn ol fy marn gydwybodol i, mai y Pabyddion a'r enwadau yw yr ymneillduwyr oddi wrth yr hen Eglwys Brydeinig yn y wlad hon, ac felly ganddi hi mae yr hawl i fod yn ganolbwynt eu hundeb yn ol.

Bu amser ar yr Eglwys, pe buasai gan ddyn ieuangc cyffredin dalent a duwioldeb angel o'r nef, nas gallasai ymestyn i'r weinidogaeth heb arian yn ei logell, neu nawdd boneddwr, pryd yr oedd yn gofyn cael Eglwyswr cydwybodol iawn i aros yn yr Eglwys; os byddai yn ddyn o alluoedd uwchlaw y cyffredin, ac awydd ynddo i wneud daioni, ac eto heb foddion, nac arian yn ei boced i gael addysg i'w gymwyso i'r weinidogaeth, a drws arall yn agored o'i flaen gyda'i

frodyr ymneillduol, ond yn awr trwy waith ein Harglwydd Esgob, yn ffurfio y Gymdeithas Esgobaethol Eglwysig, y mae y rhwystr hwn i raddau wedi ei symmud oddiar y llwybr, er fod porth y weinidogaeth yn llawer yn rhy gyfyng etto, yr hyn sy'n un o brif rwystrau llwyddiant ein Heglwys.

Y mae rhyw gymwysder neillduol yn ffurfweddiau yr Eglwys, ond eu darllen gydag iawn ysbryd, i ymaflyd yn serchiadau yr enaid, a dyrchafu y galon mewn mawl at y Gwaredwr; y maent wedi eu parottoi yn y fath fodd fel y gallo yr holl gynnulleidfa, âg un llais ac âg un meddwl, gyd-anfon eu herfyniadau at Dad y trugareddau, a Gwrandawr, gweddi. Ac y mae y darlun ar y ffenestr liwiedig o Iesu Grist yn rhoddi ei fywyd i lawr yn aberth dros feiau dynolryw, a'i ddwylaw a'i draed yn hoeliedig ar y groesbren, a'i ben sanctaidd yn ymgrymu dan y goron ddreiniog, a'i waed yn dylifo dros ei ruddiau tyner, yn ymgynhyrfu yr enaid i'w garu yn wir; oherwydd gyda'r un serchiadau yr ydym yn caru Duw ag yr ydym yn caru ein cyd-ddynion; ac os yw darlun yn gynnorthwy i garu mewn un amgylchiad, y mae yn gynnorthwy yn y llall hefyd.

Y mae llawer o gyfnewidiadau wedi cymmeryd lle yn Eglwys henafol Llanllechid er pan ydym ni yn cofio; ffrwyth ei bugeiliaeth hi, trwy lafur y Parch. Evan Lewis, ei gweinidog ymdrechgar blaenorol, ydyw Eglwys brydferth Glan Ogwen, fel y mae Eglwys y Gelli wedi tarddu o Landegai, a'r ddwy wedi eu hadeiladu gan Arglwydd y Penrhyn, yr hwn sy'n foneddwr diharebol am ei haelioni a'i elusenau. Yr y'm yn meddwl na bu Llanllechid erioed yn fwy llewyrchus nag y mae hi yn awr, o dan fugeiliaeth ein parchus Gadeir-

ydd; y mae hi yn ei ddyddiau ef wedi estyn ei chortynau i lawr i Faes y Groes, gan daflu ei dylanwad dros yr holl blwyf. Y mae yn dda iawn genyf weled ein Parchedig Archddiacon yn llywyddu ein cyfarfod heno, a gobeithio y bydd iddo ef a holl glerigwyr parchus yr Esgobaeth gael hir oes ac iechyd, a llawer iawn o dduwiolfrydedd i lafurio yn ngwinllan ein Harglwydd, er dwyn ein Heglwys i undeb a nerth, er dedwyddwch dyn, ac anrhydedd Duw.

Ac er ein bod yn credu mai math o gerydd ar yr Eglwys am ei diogi ydyw Ymneillduaeth, ac y dylem ddiolch i Dduw, am nas gadawodd ei hun yn ddidyst yn ein gwlad, ac na symudodd y canwyllbren yn hollol allan o'n mysg, er iddo adael i ddylanwad ei Eglwys gilio oddi wrth y bobl; etto yn ei amser da ei hun, yr ydym yn credu yr impia Efe yr holl Ymneillduwyr drachefn i fynwes eu hen fam, oddiwrth pa un yr ymadawsant, wedi ei phuro a'i hadfywio yn ol ei fwriadau grasol Ef ei hun. Yna y gwelir yr Eglwys yn "un corph" cadarn yn cydymdrechu yn erbyn pechod, a'r olwg arni "fel y wawr, yn deg fel y lleuad, ac yn bur fel yr haul;" "Brenhinoedd fyddant ei thadmaethod, a brenhinesau ei mamaethod;" "Meibion dieithr a adeiladant ei muriau, a'u tywysogion a'i gwasanaethant; ei phyrth hi a fyddant yn agored ddydd a nos, ni cheuir hwynt yn wastad i ddwyn atti olud y cenhedloedd;" "Ei chyfiawnder hi a ä allan, a'i disglaerdeb a'i hiachawdwriaeth hi fel lamp yn llosgi." Yna "y blaidd a drig gyda'r oen, a'r llewpart a orwedd gyda'r myn;" "ni ddrygant ac ni ddifethant, yn holl fynydd fy sancteiddwydd; canys y ddaear a fydd lawn o wybodaeth yr Arglwydd, megys y mae y dyfroedd yn toi y môr."

## MYFYRDODAU MEWN MYNWENT.

Gan mai un o'r deddfau cyntaf a gyhoeddodd Duw uwch ben cyndad dynolryw ar ol ei gwymp, oedd "gan farw ti a fyddi farw," felly y mae'n ddyledswydd gymwynasol ynom i barottoi daear neillduedig i gladdu llwch ein meirw allan o olwg y byd. A dywed y Pregethwr mawr brenhinol mai "gwell yw myned i dŷ galar na myned i dŷ gwledd." Ei reswm dros hyny ydyw, mai "hyny yw diwedd pob dyn, a'r byw," meddai, "a'i gesyd at ei galon." Byddaf bob amser yn hoffi ymweled â llanerchi hawddgar y claddfeydd pa le bynag yr elwyf. Y mae tuedd yn y fath ymweliadau i ladd balchder y galon, ac i dynu y meddwl oddi wrth wagedd y byd, a meithrin myfyrdodau ar angau a thragwyddoldeb. Y mae trwst cymdeithas yn dystewi, a'r adgofion yn deffroi yn nghymdogaeth y meirw. Y mae llawer un wedi dyfod i'w bwyll wrth rodio ymhlith y beddau, heb law y rhai hyny a gyfarfu â'r Ceidwad yn ngwlad Gadara. Yma y mae teyrn y dychryniadau yn cadw ei gaethion ynghyd, mewn cyfartalwch angeuol, ond yn unig fod gan ludw y cyfoethog ei gofadail farmor, pan y llecha llwch y tylawd dan y garreg ddiaddurn, neu y dywarchen las. Y mae beddau y fynwent yn ein dysgu fod amser yn gymmydog agos iawn i dragwyddoldeb. Y mae'n ddiameu fod ymysg

gweddillion y cenhedlaethau a orweddent â'u hesgyrn yn gymysgedig yn y gladdfa, ddynion o olygiadau gwahanol pan mewn bywyd, ond angeu fel rhyw "ddyddiwr cadarn" a osododd ei law ar y pleidiau anghytunol, ac a ddug eu holl ymryson i derfyniad heddychlon yn ystafell gul oer y bedd.

Byddaf yn meddwl weithiau fod rhyw dyniad dirgelaidd rhwng ysbryd y dyn byw â'r sawl fyddo wedi ei ragflaenu i fro marwoldeb. Bûm yn meddwl hyny lawer gwaith wrth fyned heibio i hen fynwent gyssegredig Ll——, y gladdfa lle gorwedd degau o'm hen deidiau yn dawel a digyffro, a'r llanerch i'r hon yr hebryngais innau nifer fawr o'm cydnabod, a rhai o'm perthynasau hoffusaf. Pan yn ymdaith heibio i'r hen fynwent hon, bydd arnaf flys parhaus am droi i mewn, os nid i wêled fy hen gydnabod, i syllu ar y beddfaen, neu y dywarchen werdd, dan yr hon y gorwedd y sawl fu'n cyd-lwybro â mi yn y bywyd marwol hwn, ac i synfyfyrio ar yr ysbaid fer sydd rhyngof finnau a disgyn i lawr i'r un sefyllfa isel a thywyll. Y dydd o'r blaen dygwyddodd fod y porth yn agored, a throais i fewn yn naturiol, fel y nodwydd at y cwmpawd. Aethum ymlaen ar hyd y llwybr greuanog rhwng canghenau tewion yr Yw tywyll, yn mrigau duon y rhai y cwynfanai y gwynt ei alarnad ar ol y meirwon a orweddant oddi tan y beddfeini, a ddarllenwn fel yr elwn ymlaen, nes y cyrhaeddais mewn unigedd synfyfyriol at aelgerth y bedd lle gorweddai gweddillion gwr ieuangc deallus a duwiolfrydig, ac un o'm cyfoedion anwylaf. Wrth ei ben yr oedd careg o farmor gwyn, a'i thop wedi ei nhaddu ar lûn croes Crist, ar yr

hon y pwysai coeden rosynau, a'i blodeu yn arogldarthu yr awyrgylch, a chroes fechan wrth y traed. Ond prin yr ydwyf fi wedi credu etto mai fy nghyfaill sydd yn y bedd, a'i fod wedi marw mewn gwirionedd, bûm yn ei gladdedigaeth y mae'n wir, ond breuddwyd ydyw hyny i fy nheimladau; yr wyf yn methu sylweddoli yr amgylchiad yn fy meddwl. Ni welais i erioed mo fy nghyfaill wedi marw, byw oedd efe y tro diweddaf y gwelais i ef, a byw fydd efe y tro nesaf y gwelaf ef; y mae yn fyw yn fy nychymyg er y diwrnod y clywais am ei farwolaeth; yr ydwyf yn canfod ei lygaid treiddgar, synwyrgall, yn melltenu wrth ddadlenu rhyw egwyddorion dyrys. Ymddiddanasom lawer am natur y sefyllfa ddyfodol; ond yn awr y mae fy nghyfaill wedi agor ei lygaid ar y dirgelwch mawr; y mae yn fyw i Dduw. Boed heddwch i'w lwch i gysgu yn mhridd y bedd, hyd nes y deffroa wrth lais udgorn barn y dydd mawr.

Gan gerdded ychydig ymlaen yn arafaidd a myfyriol rhwng trigfanau y meirwon, canfyddwn fedd merch ieuangc a adwaenwn yn dda. Uwch ei ben y safai careg lwyd yn dechreu mwsogi, a'i henw a'r amser y bu hi farw wedi ei dori arni mewn llythyrenau cyffredin; ac arno tyfai ychydig flodeu yn gymysgedig âg irwellt glas, y rhai a osodwyd yno gan law anweledig natur, fel arwydd, yr ydym yn hyderu, o wyrddlesni ei hysbryd mewn gwlad well na daear.

Draw wrth ochr mur y fynwent daethum heibio i fedd hen lafurwr tlawd, a chareg arw wedi ei gosod uwch ei ben yn cynnwys dwy lythyren ei enw, wedi eu tori gan law anghelfydd un o'i gydnabod; gorchuddid ei bridd gan dwmpathau gwelltog, wedi eu britho gan lygaid y

dydd, a briallu gwylltion, oddi ar rudd y rhai y sychai haul y dydd ddagrau gwlith y nos; ac er ei sathru, ac ysigo ei laswellt gan ddyn, gwylir ef yn ofalus gan angel Duw.

Yr ochr arall i'r llwybr canfyddwn fedd cristion ieuangc, gobaith ei rieni duwiol, yr hwn oedd fis i heddyw yn ysgogi mewn bywyd ac iechyd, ond cyn i rosyn ei ieuengctyd braidd orphen ymagor, disgynodd i'r bedd, ac yn awr y mae ei gorph yn gorwedd mor oer a'r mynor a gerfiwyd yn gof-adail iddo; ond nid oes yma ond y wisg farwol yn unig, ehedodd yr yspryd fel yr adar symudol, i wlad well na daear.

Gan symyd ymlaen canfyddwn fedd hen ŵr oedranus a nerthol yn ei ddydd. Gadawodd rhagluniaeth iddo fyw nes yr oedd ei war wedi ymgrymu tua'r ddaear, a'i ruddiau wedi eu rhychu gan amser; gwelodd arwyl o feithion flynyddau; ond bu yntau farw, a dyna ei fedd, a chareg ithfaen lwyd wedi ei gosod arno, yr hon sydd wedi mwsogi gymaint yn ystormydd y gauaf, fel y mae llythyrenau yr englynion pêr a gerfiwyd arni braidd yn annealladwy; o'i hamgylch y mae barau haiarn; disgynodd i'r bedd mewn addfedrwydd oedran, "fel ysgyb o ŷd yn ei amser."

Ar fy llaw ddehau yr oedd bedd un o gybyddion penaf y plwyf, ac ychydig o wellt garw a mathredig yn tyfu drosto, heb gymaint a chareg wrth ei dalcen i gofnodi ei enw, a'r amser y bu farw. Nis gallasi fyned a dim o'i aur gydag ef trwy ddorau y bedd: nid ä ond yr ysbryd a'r gweithredoedd yn unig trwy borth brenhin y dychryniadau.

Fel y symudwn ymlaen heibio i feddau pob

oed a sefyllfa, aethum heibio i lodes bach yn planu clychau y gwanwyn, a phwysiau haf ar fedd ei mham, ac ychydig ymhellach cyrhaeddais y llannerch gyssegredig lle y gorwedd yr hyn sydd farwol o'r rhai a'm gwyliasant innau yn nyddiau fy mhlentyndod; ond yma aeth fy mynwes yn rhy lawn gan deimladau, ac felly nid oedd genyf ddim i wneud ond ymdrechu ymlwybro ymlaen yn synfyfyriol rhwng y beddfeini. Prin na buaswn yn dymyno cael gollyngdod i'm hysbryd blinedig, fel y cawswn gyd-huno â'r rhai y bûm yn cyd-fyw â hwynt, allan o boen y byd siomedig hwn; ond ni raid disgwyl yn hir, ac hyd hyny mi droaf i mewn yn awr ac yn y man, i ddwyn ar gof y sefyllfa sydd yn fy aros, ac i ymgynefino â'r "tŷ rhagderfynedig i bob dyn byw," lle nid oes gwahaniaeth rhwng "brenhin a chardotyn." Pan y byddem yn hebrwng ein perthynasau a'n cyfeillion o'r byd i'r bedd, tybiwn eu bod yn cael rhyw golled fawr, ond pan gaffom ychydig o amser i ystyried helbulon y byd, ni a welwn iddynt ddiangc rhag miloedd o ofidiau, a bod marw yn elw i'r Cristion mewn mwy o ffyrdd nag un. "Yno y gorphwys y rhai lluddedig," "eu gwely a esmwythâ eu cwynfan." O! am gael huno heb yr anwiredd i orwedd ar yr esgyrn; y mae y beddfeini yn drymion, ond y mae pechod yn drymach.

Byddai hen trigolion ardaloedd y Beibl yn parottoi beddau iddynt hwy a'u teuluoedd erbyn marw, a hyny yn "ngardd eu tŷ eu hunain," gan eu haddurno â cherfiadau cywrain. Trwy bresennoldeb y beddau hyn yn yr ardd, byddai y meddwl yn nghanol ei fwyniant, yn cael ei alw adref rhag rhedeg i'r gormod rhysedd o gael ei lyngcu i fyny

gan y byd presennol, ac anghofio yr hwn a ddaw. Yr oedd y pendefig caruaidd, Joseph o Arimathea, yn unol ac arferiad ei wlad, wedi "gosod y diwedd at ei galon," gan barottoi bedd newydd iddo ei hun yn ei ardd. Yr oedd yr ardd hon yn y "fangre lle y croeshoeliasid Crist," a chan fod ei galon yn caru y Croeshoeliedig, cafodd y Gwaredwr fod gyda'r "cyfoethog yn ei farwolaeth," er fod y milwyr wedi "gwneud ei fedd gyda'r anwir" ar ochr y bryn. Yr oedd y "Gwr Gofidus," yn rhy dlawd i allu dilyn arfer ei wlad yn ei fywyd trwy barottoi bedd iddo ei hun, oherwydd nid oedd gan ein Harglwydd ni, na thŷ na gardd pan fu farw, ond yn unig y "bedd yn yr ardd," yr hwn a gafodd Efe fenthyg gan ei hawddgar ddysgybl. Yr oedd Joseph yn hapusddyn pan gafodd yr anrhydedd o roddi benthyg ei fedd i Iachawdwr y bywyd, yr hwn a daflodd o'r neilldu fantell ei fawredd, gan ddisgyn i galon y ddaear er mwyn ei bobl, ac yn ei adgyfodiad tynodd golyn angau; gwnaeth y ffordd yn rhydd o ystafelloedd y meirw i ardaloedd anfarwoldeb; ac yn ngrym ei adgyfodiad Ef adgyfodir meirwon yr hen fynwent hon etto; "O herwydd rhaid i'r llygradwy hwn wisgo anllygredigaeth, ac i'r marwol hwn wisgo anfarwoldeb." Daw rhyw angel awdurdodedig gan Dduw i ysgwyd eu beddau nes eu deffroi i farn ac ail fywyd, mewn undeb â'u hysbrydoedd, ac ni bydd marw mwy.

Ond torwyd ar fy nistawrwydd myfyrgar gan lais canu hymnau a ymdorai gyda'r awelon ar fy nghlyw, o angladd un o wyr ieuaingc y Llan, yr hwn a ddynesai yn arafaidd rhyngddo a'r fynwent. Clywais danau y delyn hyfrydlais yn odli ei halawon melusber; clywais glychau yr

hwyr yn adseinio eu cyngan trwy y glyn; clywais y seindorf soniarus yn canu eu hydgyrn perseiniol; clywais hyn i gyd, a theimlodd fy enaid; ond erioed ni theimlais yn gyffelyb ag wrth wrando llais y canu angladdol hwn. Aethum yn fy ol trwy y porth yn arafaidd rhyngof â'r brif ffordd, gan fyfyrio â mi fy hunan fod mynwent yn nghanol y byd moesol; pwy bynag a wrendy "ar lais yr hinwr" i gymmeryd ei ddenu i rodfeydd gerddi nwyd a gwynfydedd gau-bleserau, y mae yn sicr o gael allan er ei wae, mae "meirw yw y rhai sydd yno," a'i fod yn cerdded y "tir a reibiwyd," mynwent euogrwydd a thrueni, wedi ei llenwi gan feddau eu lladdedigion

## ANFARWOLDEB YR ENAID.

Yn nesaf at fôd Duw, yr hwn sydd yn cael ei amlygu mor eglur yn ei weithredoedd, y saif yr athrawiaeth bwysig o Anfarwoldeb yr Enaid, a gwobr a chosb mewn byd i ddyfod. Ar y gofyniad byr, a ydyw yr ysbryd i barhau mewn bodolaeth wedi iddo adael ei breswylfod ddaearol? neu ynte, a ydyw efe i ddiflanu fel tarth i ganlyn y corph yn angau? y dibyna pob peth sydd werthfawr i ddyn fel bôd cymdeithasgar, ac fel creadur rhesymol a chyfrifol. Etto y mae yn syndod meddwl gyda'r fath ddifatterwch y mae lliaws o ddynion yn ymlithro i waered gyda ffrwd amser, heb ymholi ond ychydig pa un a diria eu hysbrydoedd yn nghysgodion dihanfodedd, a'i yn ngororau gwae, neu ynte mewn ardaloedd o wynfyd pur. Ac nid oes rhwng dynolryw a dirgelwch mawr y dyfodol, ond edau wan einioes yn unig; a chan nad yw dedwyddwch y nef wedi ei fwriadu i'r sawl a amheuant a oes ganddynt ran anfarwol i'w fwynhau, nid oes gan y cyfryw ddim wedi ei adael iddynt ond y dynged druenus o ddihanfodiad neu uffern. Gan y Cristion yn unig y mae y gobaith o anfarwoldeb dedwydd. Nid yw ond gwagedd i ddynion ymdrechu troi eu meddyliau oddi wrth y tragwyddolfyd mawr, yr hwn sydd fel yn disgwyl am danynt, ac o fodolaeth yr hwn y mae ganddynt

dystiolaeth yn eu cydwybodau eu hunain. Pe symudid y gred am fodolaeth rhagllaw, a gobaith anfarwoldeb o'r meddwl, deuai crefydd yn gysgod, bywyd yn freuddwyd, a dynesiad angeu yn olygfa o dywyllwch ac anobaith. Ond y mae y gwirionedd am barhad tragwyddol dyn yn mynu ei le ar amserau ar feddyliau hyd yn oed y rhai mwyaf anystyriol a halogedig o ddynolryw.

Un o'r profion cryfaf o sefyllfa ddyfodol ydyw y prawf hwnw nas gellir gwneud llawer o ddefnydd o hono gyda gwrthwynebydd cadarn i'r athrawiaeth, hyny yw, y teimlad dwys ag sy'n gorwedd yn nyfnder yr enaid fod sefyllfa ddyfodol yn bod, a'r hwn sy'n gyffredin yn cryfhau fel y mae dynion yn heneiddio. Addefwyd y prawf yma gan y meddyliau uchaf ac enwocaf o ddynolryw yn mhob oes; bu yn ddychryn ac yn arswyd y drygionus, ac o'r ochr arall yn gysur ac yn obaith i'r cyfiawn; oherwydd gallwn fod yn sicr, pan feddylia dynion eu bod yn myned i farw y llenwir eu meddyliau â gobeithion ac ofnau am y dyfodol; y mae y tystiolaethau sy'n gorwedd yn nyfnder eu heneidiau fod sefyllfa ddyfodol yn bod, yn ymddeffroi ac yn tueddu i aflonyddu eu hysbrydoedd yn yr adeg hono, ac y maent, trwy eu bod mewn cymundeb agosach â'r anweledig, yn edrych ar y dyfodol yn fwy dyfal, ac o ganlyniad yn cael eu llanw âg ofnau a gobeithion. Ac y mae yr hwn sydd wedi gwneud llawer o ddrwg yn marw'n llawn dychryn; ond y daionus gyda chydwybod dawel i'w Dduw. Y mae fod yr argyhoeddiad dwys o sefyllfa ddyfodol yn llanw meddyliau dynion, pan y maent yn nesau at fin y bedd, yn ffaith lawn o ystyr, ac y mae y natur ddynol fel yn siared ynddi.

Ymddengys i'r athrawiaeth am anfarwoldeb yr enaid, a gwobr a chosb mewn byd dyfodol, gael ei chredu'n gyffredin, nid yn unig gan athronwyr boreuol a'r cenhedloedd mwyaf gwaraidd sydd yn awr, ond y mae llwythau gwylltaf dynoliaeth yn cadarnhau eu meddyliau yn y rhagolwg ar angeu, gyda gobaith am ddedwyddwch dyfodol yn yr ardaloedd tu draw i'r bedd, cyfattebol i'w dymuniadau a'u gweithredoedd yma. I ba achos bynag yr olrheinir y gred gyffredin hon am fodolaeth ddyfodol, pa un a'i i draddodiad cyffredin, wedi ei dderbyn oddi wrth rieni cyntaf dynolryw, i syniad mewnol wedi ei argraffu yn wreiddiol ar enaid dyn; i ddadguddiad dwyfol wedi ei ledaenu a'i drosglwyddo o'r naill genhedlaeth i'r llall, neu ynte i gasgliad rheswm dynol; y mae yn ffurfio prawf tebygol cryf, ac ymresymiad cadarn o blaid y gosodiad fod dyn yn greadur anfarwol. Pe bai y teimlad hwn yn ffugiol, gallem gasglu mai ofer ydyw ymresymu yn ei erbyn, gan fod y natur ddynol wedi ei chyfansoddi i deimlo a chredu felly, ac mai gwir ddoethineb i ni ydyw dilyn y gred sydd wedi gwreiddio ar galonau y natur ddynol, a pheidio treulio ein bywyd mewn ymdrechiadau ofer i'w thagu. Pe na byddai dynion yn anfarwol, etto myn dynolryw gredu eu bod yn anfarwol; os nad oes sefyllfa ddyfodol, ymddengys fod dyn rhywfodd wedi ei ffurfio yn y fath fodd, fel nas gall lai na dyfod i'r casgliad gwrthwynebol.

Ac oddi ar y teimlad sydd bron yn gyffredin yn cyfeirio at sefyllfa ddyfodol, yr ydym yn ymresymu fod dynion wedi eu cyfansoddi i deimlo felly; ac nid ydym yn credu fod y Duw a'n ffurfiodd i deimlo a chredu yn y modd hwnw yn gelwydd-

wr, gan hyny credwn fod sefyllfa ddyfodol. Ond nid yw yr holl resymau athronyddol a ddygir ymlaen yn gyffredin i brofi yr athrawiaeth hon, byth yn ein dwyn i deimlo mwy na bod y casgliad yn debygol, a magu ynom fath o obaith petrusgar. Nid oes dim ond dadguddiad a all sicrhau i ni hanfodiad sefyllfa ddyfodol; yr Efengyl yn unig a ddygodd "fywyd ac anllygredigaeth i oleuni," allan o niwl athroniaeth, ac ansicrwydd yr oruchwyliaeth Iuddewig. Er mwyn cael prawf eglur o sefyllfa ddyfodol, rhaid i ni brofi gwirionedd Cristionogaeth, ac arwain natur sy'n obeithiol, ond hefyd yn betrusgar, at ysgol Dadguddiad, efe yw ein hathraw egluraf ar y pwngc hwn; yma y gwnaed dirgelwch yr athrawiaeth yn hysbys; yma y mae y tywyllwch a'r niwl wedi eu symud, a chanfyddwn fryniau anfarwoldeb trwy ddrych yr Ysgrythyrau. Ac er fod y disgwyliad am fywyd tragwyddol wedi bod bob amser yn uchel ymysg y cenhedloedd sydd yn ddieithr i ddadguddiad, rhaid addef fod eu gobeithion a'u hofnau yn gryfach na'r profion oedd ganddynt; tra yr oedd eu deall yn diffygio, a'u rhesymau yn methu gweinyddu sicrwydd i'w meddyliau, yr oedd teimladau eu calonau yn glynu wrth y syniad greddfol am anfarwoldeb; ond i'r dyben o gael sicrwydd o'r athrawiaeth, "rhaid i rhyw dduw benderfynu y pwngc," meddai Cicero. Yn awr y mae "Duw ysbrydoedd pob cnawd" wedi rhoddi i ni ddadguddiad yn cynnwys llawn benderfyniad ar yr egwyddorion dyrys hyn. Creawdwr enaid dyn wedi amlygu ei feddwl a'i ewyllys mewn perthynas i'w barhad a'i gyflwr wedi ei ymadawiad o'r corph.

Iesu Grist ddaeth ag anfarwoldeb i lawn am-

lygrwydd trwy yr Efengyl; Efe yn ei athrawiaeth, ei wyrthiau, ei farwolaeth a'i adgyfodiad, a rwygodd y llen oddi rhwng amser a thragwyddoldeb, trwy yr hon y methasai y llygaid paganaidd ganfod ond ychydig oleuni gwanaidd erioed. Dysgodd Iesu Grist yr athrawiaeth am y byd dyfodol gyda'r fath awdurdod, purdeb, a symledd, a chyda'r fath nodwedd gwahanol i'r hyn a lefarai y doethion paganaidd nes tueddu pob un ystyriol i ddyweyd uwch ben ei ymadroddion, "Ni a wyddom mai dysgawdwr ydwyt Ti wedi dyfod oddi wrth Dduw."

Nid yw Iesu Crist byth yn cymeryd y pwngc i fynu mewn ffordd i ymresymu er ei brofi, ond ei ddadgan y mae fel gwirionedd diamheuol, ac fel pe na buasai un dyryswch wedi bod erioed yn nghylch y peth; y mae ei ddull yn hollol briodol i ddysgawdwr dwyfol. Ymddangosai bob amser fel un llawn ymwybodol o gywirdeb a didwylledd ei genadaeth o barthed i'r sefyllfa tu draw i'r bedd. Nid yw byth yn cysylltu "Os yw," neu "Os nad yw," a'r ffaith, fel y llefarai pen-dysgawdwyr y byd paganaidd; ond yr oedd ei air Ef "Awdwr bywyd," i fod yn brawf bythol yn erbyn pob amheuaeth ar y pwngc. Gesyd allan trwy ddammeg y goludog a Lazarus, yn y modd egluraf, fod yr ysbryd ar ei fynediad o'r corph, yn cael ei drosglwyddo yn ddiattreg i sefyllfa o ddedwyddwch neu drueni. Yma y gesyd ddau gymeriad ger ein bron, un wedi cael mynedfa esmwyth trwy y byd, a'r llall yn ymlusgo trwy ei ddrain a'i ofidiau. Dengys y ddau yn niwedd ei gyrfa ddaearol; ac yma, lle y bu rhaid i bawb o'r blaen sefyll yn fud; a'r fan y diffoddid holl lampau doethineb dynol gan

awelon treiddiol y dyffryn tywyll, â Ef yn mlaen gan droi "glyn cysgod angeu" yn oleuni dydd, o'n blaen. Cymer agoriadau y byd anweledig yn ei law, a dadgloa byrth marwolaeth; symuda y llen oddi rhwng amser a thragwyddoldeb. Dengys i ni enaid y goludog yn codi ei olwg yn nghanol poenau diddiwedd, ac enaid y cardotyn wedi ehedeg i wlad o ddedwyddwch pur.

Pan yn anfon allan ei ddeuddeg disgybl i bregethu yr Efengyl, dywedai yr Iesu wrthynt, "Nac ofnwch y rhai a laddent y corph, ac ni allant ladd yr enaid." Ac ar y groes wrth farw dywedai wrth y lleidr edifeiriol, "Heddyw y byddi gyda mi yn Mharadwys." Ac y mae ein Hiachawdwr a'i Apostolion wedi cyd-blethu yr athrawiaeth o wobr a chosb yr enaid ar ei ymadawiad a'r corph a'u holl ddarlithoedd, fel y gwirionedd mawr a phwysig ag sydd yn gorwedd wrth sylfaen Cristionogaeth.

Wedi y cyfan y mae'n perthyn i'r enaid ddirgelwch na ddichon meidroldeb ei ddeall; nid oes modd i ni wybod mwy am dano nag a wyddom am Dduw, oddiwrth ba un y tarddodd; oherwydd gan na chymerwyd sylwedd yr enaid, yn ei greadigaeth o ddefnyddiau y nefoedd a'r ddaear, trwy y gorchymyn "dyged" neu "heigied," ond iddo gael ei anadlu yn uniongyrchol oddi wrth Dduw; felly nid yw yn bossibl iddo fod yn ddarostyngedig i ddeddfau y nefoedd a'r ddaear, y rhai ydynt wrthrychau athroniaeth, mwy nag y gallasai Duw ei hunan fod yn ddarostyngedig iddynt; gan hyny, y mae yn rhaid i'n gwybodaeth am yr enaid gael ei ddwyn atom trwy yr un Ysbryd ac a roddes fôd iddo. Ond y mae y cyfryw Ysbryd ac a'i hanadlodd i fodolaeth

yn ein dysgu trwy ei ddadguddiad dwyfol, ei fod wedi ei ddarparu i fod byth fel Efe ei hunan, a'i fod yn gyfansoddedig o alluoedd i fwynhau gwynfyd uwchlaw ein dychymyg i feddwl am dano, neu i ddioddef poenau anamgyffredadwy yn y bôd byth hwn, yn ol ei weithredoedd yma yn y corph, â'r hwn y bydd iddo gael ei ail uno yn yr adgyfodiad cyffredin. Diflanedigaeth sydd yn ymddangos fel deddf osodedig y gyfundreth bresenol; y mae amser ei hun yn adfeilio, "Yr elfenau gan wir wres a doddant;" ond enaid y caethwas distadlaf a oroesa y dinystr grymusfawr hwn i gyd; a phan êl heibio filiynau o oesoedd mor lluosog a'r tywod ar lan y môr, ni bydd ef ddim nès i'w ddiwedd; gan hyny, "pa leshad i ddyn os enill efe yr holl fyd a cholli ei enaid ei hun?" Wedi colli un o'n cyfeillion daearol gallwn gael cyfaill arall yn ei le; ond wedi colli yr enaid yn afon marwolaeth, nid oes gan Dduw yr un enaid arall i'w roddi yn gyfnewid am dano, ac nid oes fodd ei gael yn ol dros y gagendor mawr, o boenau dinas distryw i ddedwyddwch y Jerusalem nefol. Y mae llawer yn gallu canu yn ddigon didaro, nad ofnent "pe symudai y ddaear a phe treiglyd y mynyddoedd i ganol y môr;" er hyny, am nad yw "angor eu heneidiau" wedi cymeryd gafael digon ffyddiog yn "Nghraig yr Oesoedd," ychydig bach o ddaeargryn a droai eu wynebau yn ddigon gwelw.

## AWR O FYFYRDODAU O AELGERTH Y MYNYDD.

---

Yn awr y mae yn foreu tawel a hafaidd, pan yr eisteddaf ar aelgerth y mynydd, yn nghanol y grug a'r eithin blodeuog, ar lan afonig loew sydd yn ymlithro i waered ar dywod arianaidd, rhyngddi ac Aberconwy, gan sibrydu rhyw iaith bèr annealladwy i mi. Ond yr hyn sy'n coroni y dydd ydyw ei bod yn foreu Gwener y Groglith, uchel-wyl y Cristion. Y mae fy meddwl yn ehedeg yn ol at amgylchiad y croeshoeliad yn nghymydogaeth Jerusalem. O! fel y buaswn yn hoffi cael bod yn yr hen ddinas sanctaidd y dyddiau hyny, i weini cymwynasau i Arglwydd y Bywyd yn ei ingoedd dros y ddynoliaeth; mor hoff fuasai genyf ei ganlyn o aelgerth Mynydd yr Olewydd dros ffrydlif y Gedron, oddi dan gangau yr olewydd deiliog yn Gethsemane, hen ardd y brenin Dafydd, lle dywed traddodiad yr arferai Abraham eistedd, gerllaw y graig y dywedir i Adda ymguddio ynddi oddi ger bron presenoldeb y Jehofa, a sylwi arno yn ymgrymu ar ei luniau dan y cangau deiliog, gan weddio gydâ'r fath ymdrech meddwl nes y dyferai ei chwys yn ddafnau gwaed ar y llysiau blodeuog; a syllu ar yr angel yn ei nerthu, gan ehedeg fel seren i'r wybren, a swn ei adenydd fel llais telynau awyrol; a'i ganlyn i lysoedd ei farnwyr, ac oddi yno â'r goron ddreiniog ar ei ben, i Fynydd

Calfaria, a gwylied gyda'i ddisgyblion a'r gwragedd wylofus wrth droed ei groes, gan ddilyn ei gladdedigaeth i ardd Joseph; a sylwi arno yn tynu colyn angau ac yn agor dorau'r bedd; mor falch y rhedaswn yn ol i'r ddinas gan lefain "Yr Arglwydd a gyfododd yn wir."

Er trymed oedd poenau corphorol yr Iesu ar ei groeshoeliad, yr oedd poenau ei enaid cyfiawn yn drymach, a thorodd ei galon gan bfid fel y bu farw o flaen y rhai a groeshoeliasid gydag ef. Ond pa fodd yr oedd Iesu Grist yn marw o gwbl ac yntau yn gwisgo dynoliaeth yn ei phurdeb? "Yr hwn ni wnaeth bechod ac ni chaed twyll yn ei enau," oblegyd "*cyflog pechod yw marwolaeth.*" Wel, y mae yr ateb wrth law, "*Cospedigaeth ein heddwch ni oedd arno Ef.*" Ond nid oedd yn bosibl iddo farw fel yr oedd yn Dduw, yr hwn sydd yn anfarwol o ran ei hanfod; natur ddynol y Duw-ddyn oedd yn marw. Pe buasai Duw yn marw, buasai pob peth yn syrthio i ddiddymdra, aethai y bydoedd yn deilchion o herwydd buasai Duw wedi marw, "Yn yr hwn y mae pob peth yn cydsefyll, yn symud ac yn bod."

Ar gyfer y dyddiau hyn yr oedd darpar-wyl y Pasg Iuddewig. Sefydlwyd y Pasg ar y cyntaf gan Dduw, er cof am waredigaeth yr Israeliaid o'r Aipht, trwy ladd yr oen, a gosod ei waed ar ddau ystlysbost ac ar gapan y drws, yn arwydd gwaredigol fel yr elai yr angel dinystriol heibio, ac i fod yn gysgod y pryd hwnw, ond yn goffawdwriaeth i ni yn awr o'r waredigaeth fawr trwy waed aberthol Crist, pa un, ar Ddydd y Pasg, a agorodd byrth marwolaeth. Fel yr oedd gwaed Oen y Pasg yn tynu ymaith lid Duw oddiwrth yr

hen Israeliaid gynt, felly y mae i ninau bryned-edigaeth trwy waed Iesu, gwir Oen y Pasg, a diwedd yr aberthau. Ni oddefid i neb aflan a halogedig yn ol y gyfraith i fwyta o oen y Pasg, yr hyn a rydd ar ddeall i ni fod purdeb calon a buchedd yn ofynol, fel y sylwa Apostol y Cenhedloedd, yn mhawb a ewyllysiant gyfranogi o'r Cymmun Bendigaid er cof am aberth Iesu Grist, y dihalog a dwyfol "Oen Duw, yr hwn sy'n tynu ymaith bechodau y byd." Gallem feddwl fod y blodau a addurnent rodfëydd gardd Joseph, ar foreu-gwyl Pasg yr Adgyfodiad, wedi troi eu gwynebau oddi wrth yr haul naturiol, gan sylldremio ar Haul y Cyfiawnder yn cyfodi o'i fedd, â meddyginiaeth yn ei esgyll, i esgyn i nefoedd y gogoniant, i eiriol ar ei Dad dros ei bobl.

Ychydig sydd genym o hanes Iesu Grist pan yn fachgen; ond gan ein bod yn cael ei fod o dueddfryd naturiol at unigrwydd myfyrgar, nid yw yn annaturiol i ni dybied yr arferai yntau gyrchu yn aml rhyngddo ag ochr y mynydd, ar yr hwn yr adeiladwyd dinas Nazareth, ei gartref, ac yr eisteddai yno dan gysgod olewydden ddeiliog, gan ddadblygu ei femrwn i ddarllen y ddeddf a'r prophwydi, a'i feddwl bachgenaidd wedi ei lyngcu i fynu yn nghyfraith ac ewyllys ei Dad nefol. Wrth ddyfod i waered yn ngwyll y nos ar hyd y llwybr rhyngddo a'r synagog, gallem feddwl y byddai yn gwylied ysgogiadau y sêr a'r planedau; gwyddai Ef am natur a dirgelion pob seren ar yr wybren las—Efe oedd ei hawdwr. Pan yn ddeuddeg oed cawn Ef yn ymdaith gyda'i rieni i Jerusalem, ac O! fel y trydanid ei galon gan berlewyg hyfryd wrth syllu ar furiau marmor hen ddinas y prophwydi, a phinaclau

grisialog Teml ei Dad yn disglaerio ar ei lygaid, fel mynydd o arian toddedig, dan belydrau yr haul melyn, yr hwn a fflamiai fel llong danllyd dros gopa mynydd Moriah. Tybiwn ei weled yn myned un diwrnod ei hunan heibio hen gastell y brenhinoedd, yr hwn, medd traddodiad, a adeiladwyd ar y fan y bendithiwyd Abram gan Melchisedec, a thrwy borth Bethlehem, rhyngddo a mynydd Calfaria, ac yno yn rhodio yn fyfyriol ymysg y croesbrenau, gan sylwi ar fwg yr aberthau yn esgyn i fynu o'r Deml, yn gymmylau peraroglus, nes torai ei feddwl bachgenaidd allan i wylo'n chwerw, yn y rhagolwg ar ei groeshoeliad a gymmerai le yn y fan hono rhyw un-mlynedd-a'r-hugain ar ol hyny, er sylweddoli'r aberthau cysgodol a losgai'r offeiriaid. Yr oedd gostyngeiddrwydd, addfwynder, a bywyd rhinweddol Iesu Grist yn peri iddo enill ffafr gyda Duw a dynion, fel y cynyddai mewn doethineb a chorpholaeth. Nis gwyddom pa mor gynar ar ei fywyd y daeth i ymsyniad am ei berthynas uchel â'r Duwdod, ond y mae yn amlwg oddiwrth ei ymadroddion ei fod yn deall hyn pan yn ddeuddeng mlwydd oed. Gwyddai ei fod yn "ffurf Duw; ac ni thybiodd yn drais fod yn ogyfuwch â Duw; eithr Efe a'i dibrisiodd ei hun, gan gymmeryd arno agwedd gwas, ac a wnaed mewn cyffelybiaeth dynion," "gan ddioddef angeu, ie, angeu y groes." Y mae'n amhosibl i'r fath gynllun dwyfol o ostyngeiddrwydd a chariad beidio a'n cymhell i ufudddod i'r hwn a roddodd ei einioes drosom.

Yn awr yr wyf yn cael pleser pur wrth sylwi oddi ar y mynydd hwn ar y golygfeydd arddunol sydd yn ymagor o flaen fy ngolygon; gall na wel fy llygaid mwy mor bryniau gleision twmpathog

gyferbyn, ond ni wyddent hwy ddim oddiwrth hyny. Pan y byddaf fi yn y llwch, bydd y coed hyn yn dal eu gwyrddlesni i fyny fel cynt, a'u canghenau yn gysgod rhag gwres yr haul canolddydd i rhyw fachgen twymgalon sydd heb ei eni yn awr. Fel hyn y mae hyd yn oed coed y maes yn byw yn hwy na dyn, er hyny y mae ysbryd mewn dyn nas gall angeu ei ladd, na thragwyddoldeb ei ddifa na'i daflu allan o fodolaeth; goroesa ef y gwigoedd deiliog hyn ag sydd yn gwenu mor glws dan belydrau tesog yr haul, yr hwn yw ffynhonell goleuni y greadigaeth, fel y mae Haul y Cyfiawnder yn goleuo eneidiau y cenhedloedd; a'r hwn y mae ei faintioli a'i bellder yn rhyfeddol yn y gwagle anfesurol, ac sydd yn tywallt dilyw o wres y dydd ar filiynau o fydoedd sydd yn troi o'i amgylch, a llais y Duw mawr yn y distawrwydd brawychus yn dywedyd, "Onid fy llaw i a wnaeth hyn oll." A phwy a wyr nad yw yr Hollalluog Dduw, yr hwn nid yw wedi gadael un diferyn o ddwfr yn y llyn llonydd heb ei ryfeddodau a'i ddirgelion, wedi poblogi arwyneb eang yr haul hwn â bodau deallol afrifed, yr hwn y mae ei esgyniad "fel cawr i redeg gyrfa," yn llawenhau ein daear a'i holl greaduriaid byw; adar y goedwig a'i llôn-gyfarchent â'u cynghaneddion perseiniol, gwisga y bryniau â gwyrddlesni, gan beri i'r blodau a'r dail flaguro, ac i ffrwythau y maes addfedu. Heb ddylanwad y goleuad hwn ni chanai yr adar, ni wisgid y blodau â lliwiau, ac ni roddant arogl hyfryd, darfyddai bywiogrwydd a bywyd, a thrawsffurfid y ddaear i anialwch gwag erchyll o dywyllwch ac oerfel. A pha beth fuasai cyflwr ein natur ddeallol ninnau ond caddugol dywyll-

wch pe na chyfodasai "Haul y Cyfiawnder a meddyginiaeth yn ei esgyll" ar ein meddyliau, gan ddwyn bywyd ac anfarwoldeb i oleuni, a llewyrchu ar ein serchiadau nes peri iddynt ddwyn ffrwythau cyfiawnder a sancteiddrwydd. Pa bryd bynag gan hyny y benditbiom Dduw am ymddangosiad yr haul naturiol acw, addolwn, ie, addolwn Ef yn fwy am ymddangosiad Haul y Cyfiawnder, heb yr hwn y buasem yn ymbalfalu mewn tywyllwch a chysgod angeu, gan daro ein traed wrth fynyddoedd tywyll cyfeiliornad, nes y syrthiasem i bydew diwaelod colledigaeth. Fel ag y mae yr haul naturiol hwn yn gwasgaru bendithion ei oleuni ar holl ddynolryw, bydded i ninnau ddangos ein hewyllys da tuag at bob cenedl o ddynion, trwy ymdrechu i wasgaru goleuni Haul y Cyfiawnder i'w plith, er goleuo eu meddyliau sydd yn ymdroi mewn tywyllwch moesol, fel y cyflawnom y gorchymyn a roddodd y Gwaredwr i'w ddisgyblion i bregethu ei efengyl dros yr holl ddaear, ac fel y profom ein bod yn blant y Goruchaf, yr hwn sydd yn peri i'r haul naturiol gyfodi ar holl dylwythau y ddaear, y drwg yn gystal a'r da.

Mor ddoeth y mae Rhagluniaeth wedi trefnu cribau uchel y mynyddoedd hyn, i ddal y tarth symudol yn ardaloedd yr awyr, a'u ceunentydd i dderbyn y dwfr sy'n distyllio o'r cymylau. Y mynyddoedd a'r bryniau ydynt darddleoedd gwreiddiol y ffynhonau a'r afonydd, y rhai sy'n murmur i waered gan ddyfrhau a ffrwythloni y dyffrynoedd islaw; y maent yn drysordai i wahanol oesoedd y byd, yn y rhai y cedwir y meteloedd ac sydd mor wasanaethgar yn y celfyddydau er cysuron y bywyd dynol; yn ddefn-

ddiol i gynyrchu amrywiaeth dirfawr o lysiau a choedydd; yn gynhaliaeth i amrywiol anifeiliaid sydd yn gwasanaethu anghenion dynolryw; yn atalfa ac yn gysgod rhag ystormydd; yn addurno a harddu gwyneb natur, ac yn ffurfio darlundiroedd prydferth a goruchel, a'r olwg hyfrytaf i'w chael oddi ar eu penau ar y gwastadedd odditanodd, nes enyn dychymyg y bardd, a chynyrfu ysbryd ymchwilgar yr athronydd. Lle nad oes mynyddoedd, y mae yr olwg wastad unffurfiol sydd ar y wlad yn ymddangos mor farwaidd a blinderus i'r llygaid ac arwyneb llyfn yr eangfor. Ond oni bae fod y Creawdwr doeth wedi paentio gwyneb y mynyddoedd hyn â gwahanol liwiau, ni buasem yn alluog i wahaniaethu rhwng y clogwyni noethlwm a'r bryniau ffrwythlawn; a buasem yn petruso datgan pa un a'i porfa a'i tir wedi ei aredig a fuasai y maes islaw; ac y mae y lliw gwyrddlas hyfryd ag sydd yn britho y bryniau hyn yn dygymod â natur y llygaid yn well na'r un lliw arall; ac yr ydym yn cael fod y cyfryw wyrddlesni daearol mor amrywiog fel ag y mae yn hawdd gwahaniaethu y llysiau y naill oddiwrth y llall. Pe buasai lliw du-las neu ddu yn unig ar bob peth trwy y gymydogaeth hon buasai yn taenu prudd-der dros holl wyneb natur, a buasai lliw coch cryf, neu wyn ddysglaer, yn dallu y golygon. A phwy nad ydyw yn gweled yn y doeth drefniadau hyn mai "llaw yr Arglwydd a'u gwnaeth." Y mae pob un o'r planhigion blodeuog a frithant lethr y mynydd hwn yn gwahaniaethu y naill oddiwrth y llall yn eu maintioli, ffurf eu dail, lliw eu blodau, blas eu ffrwythau, eu harogledd, a'u rhinweddau

meddygol, a'r oll yn tynu eu hymborth allan o'r un pridd. Y mae rhai yn tyfu i fynu yn syth; eraill yn ymgripio ar hyd y ddaear; rhai yn blaguro am oesoedd; eraill yn gwywo ac yn marw mewn ychydig fisoedd; rhai yn tarddu mewn daear laith, eraill yn tyfu mewn tir sych. Ie, y cyfryw ydyw yr amrywiaeth rhyfeddol a diderfyn â'r hwn y mae y Creawdwr Mawr wedi addurno y deyrnas llysieuol, fel nad oes yr un ddeilen yn y goedwig, na'r un blodeuyn yn y dyffryn, pan archwilir hwynt yn fanwl, na cheir allan eu bod yn gwahaniaethu oddiwrth bob un arall; ie, hyd yn oed oddiwrth y rhai o'r un rhywogaeth a hwy eu hunain. Pan ystyriom nid yn unig ddefnyddioldeb, ond *harddwch* trefniadau doeth natur, y fath ddyled sydd arnom i ryfeddu a mawrygu daioni awdwr ein bodolaeth. Pe bai yr amrywiaethau o fynyddoedd a dyffrynoedd, afonydd a llynoedd, goleuni a chysgodau, sydd yn awr yn addurno gwahanol olygfeydd y byd, yn myned o'r golwg, a dim ond un olygfa anghyfnewidiol yn ymddangos yn barhaus i'r llygaid, mor drymaidd ac anyddorol yr edrychai y greadigaeth i feddwl deallus; syrthiai y dychymyg yn ol arno ei hun gyda dychryn, a chyfyngid galluoedd yr enaid fel i garchar gan yr olygfa unffurf. Ond trwy fod agwedd ein byd mor amrywiog, nid oes un olygfa mewn natur, o bentyrau rhewllyd y gogledd, hyd faesydd gwyrddlas y gwregys poeth, nad oes gwrthrychau o brydferthwch diderfyn yn cael eu cyflwyno i'r golwg, er cynhyrfu y meddwl i weithgarwch, boddhau ei awydd am newydd-deb, a dyrchafu ei ddirnadaethau am y Creawdwr haelionus.

Gan daflu fy edrychiad i'r pellder draw

canfyddaf hen gastell mwsoglyd Conwy, yn estyn ei freichiau caerog fel angel gwarcheidiol rhyfel o amgylch y dref; y mae yn fy adgofio am wroldeb a helbulon fy hen deidiau gynt. O! na chawn olwg ar yr hen filwyr fu'n brwydro ynddo gyda'u bwäu saethau a'u gwisgoedd henafol. Y mae y pontydd crogedig o'm blaen oddi dan pa rai y nofia'r llongau mor ysgafn, ac yr eheda'r ystlym ar noswaith loergan gan ledu eu hwyliau yn ffrydlif yr awel, yn profi yn amlwg fod deall mewn dyn, ac ysbrydoliaeth yr Hollalluog yn trigo ynddo, cyn y gallai lunio a gweithredu y fath orchestion goruchel; gan droi fy ngolygon o amgylch canfyddaf fynyddoedd tywyll y Penmaenmawr, a Charnedd Llywelyn a'r Wyddfa yn ymestyn eu copäu i ardaloedd y cymylau. Gan ostwng fy llygaid, ar y naill law, canfyddaf y tywod grisialaidd sydd yn addurno gorweddfa y dyfnder mawr, yr hwn yn mhen ychydig gyda rhuad prudd ei donau a deifl ei fantell ddyfrllyd dros yr holl draeth; ar y llaw arall canfyddaf ddyffryn gwyrddlas Conwy, a'i goedwigoedd yn ymestyn i gusanu gwyneb y nefoedd, yr hon sydd yn edrych mor bur a chartrefle'r eneidiau; ac ymddengys y cymylau gwlanog a hofrant uwch fy mhen fel pe baent wedi eu trochi mewn porphor ac ysgarlad. Mor urddasol yr ymddengys celfyddyd a natur yn ei gorwychedd i'r meddwl myfyriol, unant i ddyrchafu yr enaid at y Duw Mawr, yn yr hwn y mae bodolaeth bob doethineb yn preswylio, a'r hwn sy'n amlygu ei fodolaeth ddwyfol ei hun trwy ei ryfedd weithredoedd. Y gwirionedd mawr o'i fod Ef ydyw sylfaen ein crefydd fel cyfundraeth, a chrediniaeth o'r gwirionedd hwnw, ydyw gwreiddyn

ein crefydd fel egwyddor; y gwirionedd hwn ydyw agoriad y rheswm i ddirgelion y presenol, yn gystal a'r graig ar ba un y gorphwys gobeithion y galon gyda golwg ar ddirgelwch mawr y dyfodol; ac nid yw anian drwyddi yn gystal a'r rheswm a'r gydwybod ddynol ond un amlygiad mawr o fodolaeth yr anfeidrol dragwyddol Dduw. Byddai y greadigaeth yn ddirgelwch anesboniadwy heb ei holrain i un meddwl mawr, yr hwn yw achosydd "y pethau a wnaed." Wrth edrych ar yr hen fynyddoedd hyn yn ymgodi rhwng y dyffrynoedd ffrwythlawn y mae fy meddwl yn ehedeg oddi wrth y gwaith at y Gweithiwr, oddi wrth y drefn at y Trefnwr Hollalluog. Yr Hwn y mae ei fodolaeth ynddo Ef ei hunan, ac sydd uwch law holl ddeddfau amser, "heb gyfnewidiad na chysgod troedigaeth." Y mae yn holl bresenol mewn amser yn gystal a lle. Iddo Ef nid yw dyddiau Adda wedi myned heibio, ac nid yw diwedd y byd heb ddyfod. Y mae yn gweled yr holl gyfnodau ynddo Ef ei hun, heb droi ei feddwl mawr yn ol nac yn mlaen i gael golwg arnynt. Y mae yn bodoli erioed, ac o angenrheidrwydd ei natur, heb achos iddo, a chan nad oes iddo wneuthurwr, nis gall fod iddo gynhaliwr. Y mae yn Fod annibynol, a'i fywyd yn anherfynol, ei allu yn hollalluowgrwydd, a'i ddoethineb a'i synwyr tu hwynt i'w chwilio allan. Y mae yn Fod perffaith, ac yn cynnwys tragwyddoldeb ynddo Ef ei hunan, a'i ganolbarth yn mhob man, a'i amgylchedd heb fod mewn un man, er hyny y mae yn dadguddio ei bresenoldeb yn fwy uniongyrchol i'w saint yn Mharadwys nag mewn un man arall. Y mae Duw yn rhyfedd yn ei weithredoedd, ond yn fwy rhyfedd ynddo Ef ei

hunan; ond y peth rhyfeddaf ydyw fod y Duw hwn wedi dyfod i breswylio mewn natur dyn, yn mherson ei Fab. Ynddo Ef y cawsom ddelw weledig o'r Duwdod anweledig, ie, y fath ddelw o hono ag y gallwn Ei addoli trwyddi, oblegid y mae y Duwdod Ei hunan ynddi. Y fath amlygiad rhyfedd o ymostyngiad a chariad dwyfol. Awdwr y bydoedd wedi dyfod yn dylotach na'r adar a'r llwynogod, er mwyn gwneud iawn i gyfiawnder Duw am anwiredd dyn. Y mae ei ddioddefiadau a'i aberth drosom yn cynhyrfu ein serchiadau i'w garu yn wir; y mae rhyw ddirgelwch, doethineb, a haelfrydedd, yn perthyn i holl weithredoedd yr Hollalluog; ac "yn ddiddadl mawr yw dirgelwch duwioldeb, Duw a ymddangosodd yn y cnawd." Y fath ynfydrwydd ydyw pechu yn erbyn y cyfryw Fod galluog a da, ag un sydd yn ein hoffi mor fawr, er y mae yn wir fod arwain bywyd sanctaidd yn weithred anhawdd i ddyn llygredig heb gymhorth yr Ysbryd Glan. Oherwydd yn aml er i ni weled bach y diafol byddem yn methu peidio chwareu a'r abwyd. Yn mherson y Cyfryngwr y mae y meddwl dynol yn cael pwynt i orphwys arno wrth addoli y "Duw anweledig," pan yn myfyrio ar y Duwdod yn noeth a digyfrwng, y mae yr enaid fel colomen Noah yn methu cael gorphwysdra i wadn ei droed. Duw sydd yn mhob man, ac nis gall ei amgyffredion gynwys gwrthrych sydd yn mhob man, ac heb fod mewn un man mwy na'i gilydd, hyd nes y disgyn ei fyfyrdodau ac y gorphwysant yn mherson y Duwddyn, fel y golomen yn yr arch, "Ni welodd neb Dduw erioed, yr unig anedig Fab, yr hwn sydd yn myn-

wes y Tad, hwnw a'i hysbysodd Ef." Yn mherson Iesu Grist y daeth y Duwdod a'r ddynoliaeth i undeb a'u gilydd, a hwnw yn gyfryw undeb fel nad yw Mab Duw a'r dyn Crist Iesu ond un person. Yn y Cyfryngwr y daeth yr Anfeidrol yn agos iawn atom ni. Ynddo Ef y gallwn addoli y Jehofah yn ein natur ein hunain, a thrwyddo Ef y mae y ffordd at yr Ysbryd anweledig, ac nid trwy y gau-ddelwau paganaidd.

Gan daflu fy ngolygon o amgylch dros arwyneb eang natur amrywiog, yr wyf yn canfod fod digon o le i iawn ysgogi y meddwl a'r dychymyg wrth syllu ar y golygfeydd swynol a mawreddog a ganfyddir o aelgerth y mynydd hwn. Dychymyg ydyw un o briodoleddau ardderchocaf yr enaid dynol; ac y mae rhywbeth yn y ffaith fod gan yr enaid allu i greu drwy gasgliadau o'i heiddo ei hun, olygfeydd o brydferthwch anarferol, ac o ddedwyddwch perffaith, heb ei lychwino a'r amherffeithiau a berthynant i bethau daearol, ag sy'n amlygu nid yn unig ei enwogrwydd, ond efallai ei fywyd dyfodol. Pan ddefnyddir y dychymyg i arliwio ceinion anian, neu i gasglu prydferthion barn a theimlad crefyddol a moesol, ac i'w cysylltu yn nghyd âg awdlau diddanol barddoniaeth, y mae gan ei hymarferiadau ddylanwad daionus ar ysbryd dyn. Gall y dychymyg iselu a llygru, neu ddyrchafu a choethi teimladau y galon. Pan y byddo y dychymyg yn crwydro ar ol gwrthrychau gwaharddedig, yr oll ag sy'n angenrheidiol i'w wneuthur er dryllio y gadwen o gau-fyfyrdodau, a dwyn y meddwl at fater teilwng ydyw troi llygaid yr enaid at groes Crist, yr hon sy'n "bwrw dychmygion ofer i lawr;" gwna hyd yn oed y dych-

ymyg orchuddio ei gwyneb a'i hadenydd disglaer gan ymlanhau a phlygu o flaen Emmanuel. Os bydd ychydig o feddwl a dychymyg gan ddyn, y mae tuedd gref yn ngholygfeydd amrywiol natur i'w gynhyrfu i fyfyrdod. Y mynyddoedd cribog a'r dyffrynoedd blodeuog; y ffrydiau rhedegog y rhai a ganant rhwng y bryniau; "adar y nefoedd a leisiant gerllaw iddynt;" yr enfys eurog, a'r ser arianaidd; gwahanol dymhorau y flwyddyn, y gwanwyn adfywiol a blaendarddol, yr hwn a egyr ddrws gobaith o'n blaen; yr haf prydferth a blodeuog, yr hwn a ddyhidla lawenydd a hyfrydwch i'r llygaid a'r galon; yr hydref cyfoethog, dail gwywedig yr hwn a sibrydant yn ein meddwl fod yn rhaid i ninnau wywo ar ol cyflawni dyledswyddau ein tymor, a'r gauaf ystormus, pa un a ddywed wrthym y disgyn ein cyrph i'r pridd fel holl harddwch y flwyddyn, pan yr ydym yn hyderu yr hed ein hysbryd i wlad well na daear.

Tra yr wyf yn eistedd ar dwmpath mwsoglyd y mynydd, a'r ehedydd yn telori uwch fy mhen, wrth syllu i odrau y dyffryn canfyddaf gwmniau o gleifion pryderus a gwelw eu gwedd, yn ymdaith yn arafaidd ar hyd y brif ffordd, rhyngddynt â ffynnon feddygol Cae Coch, i yfed o'i dyfroedd, er mwyn ymdrechu dwyn iechyd yn ol i' w cyrph adfeiliedig. Mae fy nychymyg yn peri i mi feddwl mae ardaloedd tebyg i hon oedd rhwng dyffrynoedd a bryniau Canaan, lle y byddai Iesu Grist yn rhodio, gyda'i lygaid glas, treiddiol, a'i edrychiad craffus a serchog, a'i wynebpryd urddasol a dwyfol, a'i farf sidanaidd yn hongian oddi ar ei rudd, a'i wallt euraidd yn rhanu ar ei goryn yn ol defod y Nazareaid, gan ym-

lithro dros ei ysgwyddau, a'i berson lluniaidd ac ysbrydoledig yn rhagori mewn prydferthwch a chymwysder pob aelod ar feibion dynion, a'r fantell frethyn a wauodd Mair iddo, wedi ei phlygu ac yn crogi yn rhydd dros ei gorph hawddgar a sanctaidd. Y fath gynhwrf a rhyfeddu a fyddai yn mhentrefi Judea, pan ddeuai yr Eneiniog i fewn, gan wasgaru bendithion o gylch ei lwybrau; iachau eu cleifion, a chyfodi eu meirw. O fel yr ymdyrai y trigolion o'i gylch gan fendithio Duw a'r Messiah. O na ddeuai Iesu Grist a'i ddisgyblion ar eu hymdaith ar hyd y dolydd gwyrddion acw yn awr, fel y byddent yn rhodio meusydd blodeuog Canaan gynt. Gyda'r fath lesmair perlewygol y llammai y cleifion hyn i'w gyfarfod, gan ymgrymu yn addolgar ger bron ei bresennoldeb hawddgar, i erfyn am iachad; gwn y gwrandawsai, canys ei hoff waith ar ein daear gynt oedd cyflawni cymwynasau o drugaredd i'r eneidiau blinedig; ond gan na welir ei berson dwyfol yn rhodio y llanerch hon, gwynfyd na fyddai iddo anfon rhyw angel i gynhyrfu y dwfr, fel yr hwn a gynhyrfai ddwfr llyn Bethesda gynt. Fe fyddai mor hawdd iddo Ef beri meddyginiaeth trwy y ffynnhonau hyn, ag ydoedd gyda y clai a'r poeryn yn nyddiau ei gnawd. Er ei fod yn y nefoedd yn bresennol o ran ei ddynoliaeth, etto y mae ei dynerwch a'i awdurdod ar glefydau yn parhau yr un, ond ein bod ni yn methu deall dirgelion ei ffyrdd Ef—cymylau a thywyllwch sydd o amgylch ei lwybrau. Y mae yn meddu yr un teimladau tyner a serchog fel dyn yn awr a'r amser yr wylai uwch bedd ei gyfaill Lazarus, a'r un gallu fel Duw a phan yn ei alw yn ol o

farw i fywyd. Er mwyn dangos ei fod yn ddyn a allai "gydymdeimlo â'n gwendid ni" yn gystal ag yn Dduw, byddai ei Dduwdod yn aml pan ydoedd ar ein daear o dan y lleni. Fel dyn yr eisteddai, "yn wr gofidus a chynefin â dolur," yn flin a sychedig wrth ffynnon Jacob; ond fel Duw y gwasgarai flodau iechyd ac einioes trwy bentrefi yr Israeliaid.

Y mae afiechyd yn aml yn troi gwinoedd bywyd yn wermod, ac yn gwneud i'r galon dyner wylo mewn disdawrwydd, wrth edrych ar gynllun gobaith einioes, yn troi yn siomedigaeth; er y mae yn wir nad oes yn y bywyd hwn yr un sefyllfa heb ei chroes—yr un rhosyn heb y ddraenen. Nid yw bywyd neb ar y cyfan ond casgliad o adfyd a gofid wedi ei chwerwi gan ddagrau siomiadau, a'i felysu drachefn o gwpan gobaith, etto mor fynych y mae gobaith anwylaf dyn yn y bywyd hwn yn esgor ar drist siomedigaeth, gan beri i gwpan hawddfyd brofi yn fustlaidd wermod, ac i flodau cysur wywo fel y crinddail. Yma gallwn weled y gwr gonest yn ymdroi mewn tylodi, tra y byddo ei gymydog rhagrithiol yn derbyn cyfoeth ar gefn pob awel, ac ar frig pob tòn. Mor fynych y cafodd mab athrylith ei synu a'i glwyfo wrth weled nodded a pharch yn myned heibio ei ddrws, ac yn cartrefu gyda rhyw un, yn ei dyb ef, yn llawer llai ei ddawn a'i gyrhaeddiadau nag ef; fel hyn y mae amcanion hoffaf, a gobeithion gwresocaf dynion yn cael eu siomi gan amser. Tra y byddo callineb yn llunio, amynedd yn gofalu, a llafur yn codi'r adeilad, daw camgymmeriadau, siomiant, ac afiechyd, ac a gyd-chwarddent am ben y castell awyrol a wnaeth y dyn iddo ei hun, gan

ei addurno âg amryw liwiau; a phan y meddylio yr adeiladydd truan fod y maen uchaf wedi ei roddi i mewn yn ddiogel, daw croeswyntoedd amgylchiadau ac a ysgubant y cyfan ymaith fel tŷ y pryf copyn, gan adael y dyn druan yn adyn siomedig wrtho ei hun, i fyfyrio ar gamgymmeriadau ei fywyd. Fel hyn y mae cynifer o ergydion sydyn a digwyddiadau araf, ysywaeth, wedi gwasgaru gobeithion rhai o ddynion goreu cymdeithas yn y bywyd hwn, nes gwneud hyd yn oed amgylchiad ddifrifol angeu ei hun yn gymwynasydd i lawer ohonynt, a pheri nad oes dim ond presennoldeb yr Hwn sydd yn llanw y nefoedd a'r ddaear a all lonyddu a chysuro eu heneidiau blinedig. Y mae trallod a siom yn chwerwi hawddfyd, a chysuron a gobaith yn melysu adfyd; y mae gobaith yn debyg i ber arogl yn arogli yn felysach wrth ei wasgu; etto siomiant ydyw y goreu am amlygu rhinwedd. Iechyd a llwyddiant ydyw bendith yr Hen Destament; etto yno, ond i ni ymwrando ar delyn Dafydd ni a glywn bruddgerddi mor fynych a charolau; ac y mae adfyd Job wedi ei ddesgrifio gan bwyntel yr Ysbryd Glan yn fwy gyflawn na llwyddiant Solomon. Ond cystudd a thlodi ydyw bendith y Testament Newydd, ac y maent wedi ei cysylltu a'r amgylchiadau helaethaf o ffafr Duw. Rhaid i'r Cristion gyfarfod yn aml â phob un o'r ddau wrth rwyfo yn ei gwch breulyd o gnawd drwy ystormydd y byd. Rhinwedd, iechyd, a llwyddiant ydyw cymedroldeb, ond rhinwedd, afiechyd, a siomadau ydyw goddefgarwch. Y mae yr Hwn a wnaeth bob peth yn dda, wedi cyfaddasu dyn a'i amgylchiadau yn y fath fodd, ag y gall pob cyflwr y mae ynddo fod

o rhyw ddiben daionus iddo. Pan y torir i raddau y cysylltiad a'r byd allanol gan afiechyd, y mae yr enaid yn cael ei daflu yn ol arno ei hunan, i feddwl ac adfyfyrio mewn profiad a doethineb; ac o'r cwmwl ing a ofnid disgyna cawodydd bendith. Dylem edrych trwy ffydd tu draw i ail achosion, ar olwynion rhagluniaeth yn cael eu hysgogi gan law anweledig a doeth Llywydd tynghedfau dynion. Y mae rhyw ddirgelwch rhyfedd yn perthyn i Gristionogaeth. Pwy all ddeall digwyddiadau amser a thragwyddoldeb? Neb ond Duw. Rhaid ymddiried ynddo Ef. Crefydd y Beibl ydyw y buraf a'r ryfeddaf yn y byd.

Tra yn myfyrio yn fy eisteddle fwsoglyd clywaf lais erfyniol yn disgyn ar fy nghlyw; gan edrych o amgylch canfyddaf ddyn ar ei liniau yn nghysgod llwyn eithinog yn gweddio yn daer ar Dduw. Y mae ei ddwylaw yn blethedig ar ei fynwes, a'i wallt yn chwifio yn yr awelon, a difera ei ddagrau ar y glaswellt. Yma y mae Duw yn cael ei addoli mewn purdeb ysbryd, heb y rhagrith o hunan glod ac elw, ar gwrlyd mwsoglyd natur, dan awyr las y nefoedd. Wrth edrych ar y gweddiwr unig hwn, y mae yn rhedeg i fy meddwl fod y dylanwad y mae ffydd yn Nghrist yn ei gael er darostwng balchder y galon ddynol, a sancteiddio serchiadau yr enaid, gan beri i'r Cristion ymgrymu mewn gweddi, ac ymestyn at rinwedd er ymdebygu i gymeriad pur Iesu Grist y person sancteiddiaf a fu yn y byd erioed, yn brawf ag sydd yn ddigon ynddo ei hun er sefydlu am byth darddiad dwyfol Cristionogaeth. Y dynion goreu a thawelaf yn mhob sefyllfa a fuont yn y byd erioed, oeddynt y

rhai a arferasant y ffydd fwyaf diysgog yn Nghrist. Y mae profiad uchel y galon, a gobaith ffyddiog yr enaid yn brawf i'r saint o ddwyfoldeb eu crefydd; at y prawf mewnol hwn ar y rhai a ufuddhant i'r gwirionedd y cyfeiriai Iesu Grist ei hun, er profi dwyfoldeb athrawiaeth ei Efengyl, pan y dywedai "Os ewyllysia neb wneuthur ei ewyllys Ef, efe a gaiff wybod am y ddysgeidiaeth, pa un a'i o Dduw y mae hi." Nid ymddangosodd crefydd erioed yn y byd yn meddu tuedd naturiol i daenu tangnefedd a heddwch ymlith dynolryw fel Gristionogaeth, yr hon ar bob mater sydd yn cynwys un wers ddiwyrni, o'r moesoldeb manylaf, o gyfiawnder a haelfrydedd, ac o garedigrwydd cyffredinol. Yr oedd Iesu Grist yn berson rhinweddol a hawddgar, a'r egwyddorion a bregethai ac a ymarferai o'r fath oreu a phuraf, y maent yn syml, yn ddiymffrost, ac yn oruchel, yn rhagori ar ddysgeidiaeth holl ddoethion y byd. Rhaid ei fod yn Berson dwyfol, Efe ydyw yr unig esiampl o berffaith burdeb moesol yn nghanol byd yn gorwedd mewn dryg-ioni. Yn Iesu Grist yr ydym yn gweled cymmeriad perffaith sanctaidd, "diddrwg dihalog," er yn byw ymhlith "cnawd pechadurus," etto "yn ddidoledig oddi wrth bechaduriaid." Yr oedd yn cael ei demtio i bechu, yn gweled pawb o'i ddeutu yn pechu, ac "wedi ei wneuthur yn bechod," etto "heb adnabod pechod." "Nid un yn mhlith mil," ydoedd, ond un ar ei ben ei hunan yn wahanol i bawb. "Y cywir hwnw," y fath burdeb sydd yn ei bregethau, y fath synwyr sydd yn ei ddamegion, a'r fath bresenoldeb meddwl sydd yn ei atebion. Pa le y mae y dyn a allai fyw a marw fel hyn heb *wendid* na

*gwag ogoniant*, a hyny yn nghanol byd pechadurus?

Ychydig oriau eto a bydd y nos a'i distawrwydd dylanwadol wedi taenu ei hadenydd duon dros yr hen fynyddoedd cribog hyn, pan na chlywir pib y bugail na brefiadau y defaid mwy, dim oddigerth yr ysguthan bruddlais yn cwynfan yn alarus yn y goedlan oddi tanodd, a "dwfn gyfarthiaid gonest ci," yn ymgolli yn adsain y creigiau draw. Y nos y bydd y llwynog cyfrwysddrwg, yn gadael ei ffau ar y mynydd, gan gyfeirio yn lladrataidd rhyngddo a buarth yr amaethdŷ islaw; ac yn dwyn ymaith ei ddewis rai o'i dda asgellog. Dyma y pryd y bydd llofruddion ac ysbeilwyr yn cyniwair trwy heolydd y dinasoedd yn drahaus a gwingar, a'u meddyliau a'u cydwybodau wedi eu gordoi a thywyllwch duach na'r eiddo y nos ei hun, cynllwynant am "y wraig ddieithr," a'r "fenyw wenieuthus," heb ystyried fod ei "ffyrdd hi yn disgyn i ystafelloedd angeu," a'u bod oddi tan lygaid y Barnwr Mawr, yr hwn sydd yn ddisgleiriach na deng mil o heuliau; "yr un fath yw tywyllwch a goleuni iddo Ef." Yn nistawrwydd y nos y dywed hen chwedlau traddodiadol yr oesoedd tywyll yr ymddangosai bwganod, a llawer bachgen ofnus ac ofergoelus a groesodd o'i ffordd er mwyn ysgoi y fangre lle y dywedid fod ysbryd ynddo, heb feddwl fawr pa mor fuan y byddai iddo ef ei hun agor ei lygaid mewn byd llawn o ysbrydion digorph. I'r dychymyg myfyrgar y mae swynion y golygfeydd a fwynheir o aelgerth y bryn ar wyllnos haf yn anrheithol mwy dengar na difyrwch y chwareudŷ, neu anrhydedd maes y gwaed; ar ol y cyfryw fyfyrdodau tawel yn nghymdeithas

felys natur, gall y meddwl gysgu yn esmwyth gyda chydwybod dawel er adloni a bywiocau y enaid blinedig wedi llafur y dydd.

Gan godi o'm heisteddle a cherdded gwastadedd y mynydd, cyrhaeddaf yn sydyn at lan llyn du-ddwfn sy'n gorwedd yn nghanol caunant. Yma teyrnasa distawrwydd prudd y bedd, a'r hen lyn yn edrych mor drwm a phe buasai wedi colli un o'i berthynasau agosaf yn ystod y sychdwr diweddar, gorwedda mor llonydd a digyffro yn mynwes y creigiau daneddog, a phe na buasai yr un awel o wynt erioed wedi chwythu ar ei wynebpryd tywyll; disgynaf i lawr y mynydd rhyngof a choedlanau y glyn fel yr esgynais i fynu, gyda glan ffrydlif loew leddf y llyn hwn, yr hon fel angyles dyner natur sydd yn canu yn beraidd wrth ymlithro ar y ceryg gwynion. Fel yr wyf yn sylwi yn fyfyriol ar wyneb glân y ffrydlif hon, canfyddaf ddail gwywedig y goedwig y naill ar ol y llall yn ymsymyd yn wael eu trefn, heb allu nac ewyllys, ond yn unig wrth drugaredd y tonau, pa rai a'u lluchient ar hyd wyneb y dyfroedd ffrydiog, ac oll yn cyflymu rhynddynt a llyngclyn diysbydd y mor; ac felly yr un ffunud y cydymdeithia dynolryw trwy anialwch dyrys y byd; er ein holl bryder a'n gofalon, nid yw ein heinioes ond deilen ar afon amser, yn dilyn cwrs lli bywyd gan gael ein hyrddio gan donau Rhagluniaeth rhyngom a mor anweledig tragwyddoldeb. Y mae amser gyda'i draed gwlanog yn ein hymlid yn ddistaw i grafangc angeu, yr hwn nid yw yn arbed ieuengctyd blodeuog a chryf mwy na henaint crymedig a gwan. Nid oes dim sicrach nac angeu, er nas gwyr neb pa bryd y daw. Y mae

yr ieuangc yn ei ganfod megis o hirbell, a'r oedranus yn tybio nad yw yn agos iawn, hyd nes yr ymesyd arnynt mor ddisymwyth a'r saeth oddi ar y llinyn, neu y neidr o'r drysni.

Fel y disgynaf i waered, rhed i fy meddwl fod Duw yn yr hen oesau wedi bod yn arfer ymgyfeillachu mewn dull neillduol â dynolryw oddi ar fynyddoedd. Oddi ar fynydd Horeb yr ymddangosodd Efe i Moses mewn fflam dan, o ganol y berth. Oddi ar fynydd Sinai y rhoddod Efe y Gyfraith i Israel, yn nghanol taranau a mellt, tân a mwg. Bu yn preswylio yn hir yn ei Deml ar fynydd Moriah, mewn cwmwl goleu ar y Sechinah, i wneud cymmod dros ei bobl trwy aberth, hyd nes y daeth i drigo yn mherson y Cyfryngwr. Hoffai Iesu Grist hefyd rodio a gweddio ar ei Dad, gan bregethu i'r bobl yn unigrwydd y mynyddoedd. Ar y mynydd y gweddnewidiwyd Ef, ac y bu yn rhag-rybuddio ei ddisgyblion am ddydd y farn a dinystyr Jerusalem. Oddi ar fynydd Calfaria y cymmerodd ei groeshoelio, ac oddi ar fynydd yr Olewydd yr esgynodd i ogoniant. Ond er holl swyn a chadernid y mynyddoedd, y mae'r amser yn dyfod "yn nydd mawr ei ddigter Ef," pan y "neidiant fel hyrddod," ac y "llamant fel wyn defaid," ac y byddont "gan wir wres yn toddi." Pryd hyny bydd yr annuw yn gweddio ar y mynyddoedd hyn, gan ddywedyd, "Syrthiwch arnom ni, a chuddiwch ni o wydd yr hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfaingc, ac oddiwrth lid yr oen," ond bydd yn rhaid iddynt ymsuddo yn môr tanllyd digofaint yr Anfeidrol, a bod yno yn dragwyddol newynog a sychedig, a hyny yn ngolwg ffrydiau gwin

lifeiriol, a ffrwythau per ynysoedd paradwys, a hwythau er eu galar a'u hedifeirwch heb allu i brofi o un ohonynt i oeri llosgfeydd eu cydwybodau. Ond bydd Duw yn noddfa i'r cyfiawn yn yr ystorm ddiweddaf, ac "er crynu o'r mynyddoedd," nid ofna efe, canys arweinia yr Oen ef yn ddiogel i fynydd Sion, i gymdeithas Duw, yr angylion, a'r saint, i wlad o rinwedd a dedwyddwch pur, lle nad yw pechod yn bwrw ei wenwyn marwol am ben cymdeithas; y mae aml i ddyferyn sur wedi ei wasgu hyd yn oed o gwpan melysdra y bywyd hwn. Y mae yn wir fod yr Efengyl yn blodeuo yn y tir, ond mor anaml y mae hi yn dwyn ffrwythau cyfiawnder, gan "dynu ymaith" anwiredd y preswylwyr. Er fod genym yma fyddyddoedd o berlysiau, a blodau a fuont unwaith yn "addurno gardd yr Arglwydd," y mae genym hefyd brenau a llysiau ac y mae eu cysgod yn wenwyn, a phrawf o'u ffrwyth yn farwolaeth; ond yn ardaloedd y gwaredigion cawn flodau hyfrydwch heb ddrain gofidiau, a thros ei gwyrddion fynyddoedd chwytha awelon balmaidd anfarwoldeb, oddiar ddail pren y bywyd, ac arwain yr Oen "Genhedloedd y rhai cadwedig" at y ffynnhonau bywiol o loew ddyfroedd a darddent oddi rhwng ei theg flodeuog fryniau. Am unrhyw rai o ganghenau gor-lwythog ei choed anfarwol fyrdd, nis gellir dywedyd "grawnsypiau chwerwon sydd iddynt." Y mae pobpeth a fwynheir ynddi yn ddedwyddwch pur, ni ddywed neb o'i thrigolion "claf ydwyf," ni welir neb yno'n wylo. "Blinder, gorthrymder, na phoen, ni bydd yno." Er nad ydym yn awr yn gallu dirnad ond ychydig am natur pleserau gwlad y gwaredigion, a hyny

"trwy ddrych mewn dameg," yr ydym yn dra sicr na bydd yno ddim *poen*. *Byd heb boen!* O! 'r fath syniad dedwydd. Llygaid nid all weled y wlad hyfryd hon; clust nid all glywed ei hodlau per; a breuddwydion nosawl nid allant dynu darlun ohoni. Amser nid yw'n anadlu ar ei bythwyrddion ynysoedd. Y mae tudraw i'r bedd yn uwch na ser y nos, ffydd a gobaith, a'r dychymyg yn unig all dreiddio trwy niwl amser i'w hyfryd ardaloedd.

Y mae llawer o hyfrydwch yn perthyn i'r ddaear hon, canys daear Duw ydyw. Y mae ynddi ambell ran yn wlad "ffigys a gwinwrydd," er fod ynddi ranau eraill yn "dir sychder a chysgod angeu;" er hyny, y mae y rhosyn yn brydferth er ei amgylchynu â drain, a lili y dyffrynoedd yn beraroglus, er iddynt darddu i fyny ymhlith y mieri. Y mae yr enfys yn ogoneddus er y diflana yn nghanol tymestl. Ond y mae y wlad sydd uwch y cymylau yn well, canys nefoedd Duw ydyw. Yno ni bydd oerni y gauaf yn ein gwywo na gwres yr haf yn ein deifio. Yno y mae hafdai o winwydd a phomgranadau lle yr eistedd y saint, a "thelynau Duw ganddynt," i ganu "can yr Oen," ac odlau o gariad at y Brenhin tragwyddol. Nid oes yno ryfeloedd nac ymrysonau, llid na chwerwedd. Nid â trwy borth "dinas Duw" neb aflan nac yn gwneuthur drygioni. "Y rhai pur o galon" yn unig a welant Duw." Yno y bydd ein serchiadau mor bur ac awelon y boreu heb ddim o wendid y cnawd na llygredigaeth y cwymp yn gwenwyno ein natur. Ond rhyngom a'r wlad ddedwydd hon y mae afon ddu a dofn angeu, trwy yr hon y mae yn rhaid i ni fyned cyn cyrhaedd y

Ganaan fry, a'r hon a deimla y Cristion yn ddyfnach neu yn faesach fel y byddo ei ffydd yn Mrenhin y wlad, ac yn nyfroedd yr hon y bydd i ni adael ein gwisgoedd marwol ar ein holau hyd nes eu purir yn gymwys i'r wlad nefol; a bydd i'r Brenhin tragwyddol ddanfon ei "ysbrydion gwas anaethgar," i ddal pen ei weision "a gânt etifeddu iachawdwriaeth," uwch law ei thonog genlli, y rhai a arweiniant eneidiau y ffyddloniaid trwy ardaloedd yr awyr i gartref yr angylion ac "ysbrydion y rhai a berffeithiwyd," ac ni bydd marw mwy.

O! baradwysaidd wlad. O! na chawn agor fy llygaid ar dy ddedwyddwch. Yno caem weled Moses, gwas Duw, er iddo farw ar fynydd Nebo, a Dafydd y brenin a fu'n bugeilio ar fynyddoedd Israel; ac yno y caem edrych mewn cyfiawnder a hyfrydwch ar Greawdwr y mynyddoedd hyn, a'n digoni a'i ddelw Ef, gan syllu yn ol o "fryniau Caersalem," mewn golwg glir ar ein taith trwy gorsydd dyrys einioes.

Y sefyllfa nesaf i Baradwys yn y byd hwn ydyw sefyllfa y dyn rhinweddol, yr hwn am ei fod yn gallu trefnu ei fywyd wrth reolau yr Ysgrythyrau, ac arwain ei lwybrau trwy y byd yn unol â gwersi Cristionogaeth, sydd yn gallu cadw cydwybod dawel yn ei fynwes, a heddwch tuag at Dduw a dyn, nes y mae ei fywyd fel salm wasdadol yn nghanol holl ystormydd einioes, gan wirio geiriau yr Hen Lyfr mai "heddwch mawr sydd i'r rhai a ofnant yr Arglwydd, ac a gadwant ei gyfraith Ef," oherwydd y mae rhyw egwyddor wedi ei phlanu gan Dduw yn yr enaid dynol ag sy'n cymmeradwyo rhinwedd ac yn condemnio drygioni hyd yn oed yn y byd amherffaith hwn.

# LIST OF SUBSCRIBERS.

---

The Right Rev. the Lord Bishop of Bangor—10 copies.
The Right Rev. the Lord Bishop of St. David's—2 copies.
The Right Rev. the Lord Bishop of St. Asaph.
The Very Rev. the Dean of Bangor—5 copies.
The Right Honourable Lady Llanover—5 copies.
The Very Rev. the Dean of St. David's—6 copies.

Atkinson, John, Esq., Maes-y-groes—5 copies.

Bennet, Nicholas, Esq., Trefeglwys—2 copies.

Davies, Dr. H. Harris, (*Perern*), Rector of Llangoed—2 copies.
Davies, Mr. John, Coedypark—6 copies.
Davies, Mr. Richard, Braichygwair.
Davies, Mr. Owen, (*Eos Llechid*).
Davies, Mr. William, Douglas Hill.
Davies, Mr. D. Griffith, Coedypark.
Davies, Mr., National School, Bodfeirig.
Davies, Mr. David, Mount Pleasant.
Davies, Mr. David, Tan'rhirdir.
Davies, Mr. D. John, Coedypark—6 copies.
Davies, Mr. John, Bontuchaf.
Davies, Mr David, Coedypark
Davies, Mr. William, Ty'ntwr.
Davies, Mr. D. E., (*Glanffrydlas*), Bontuchaf.
Davies, Mr. W., Printer, Bangor.
Davies, Mr. W., Ffynon Bach.

Evans, The Venerable Archdeacon, Llanllechid—3 copies.
Evans, Rev. D. Silvan, B.D., Rector of Llanymawddwy—2 copies.
Evans, Rev. William, Vicar of Rhymney—3 copies.
Evans, Rev. J. O., B.A., Rector of Maentwrog—2 copies.
Evans, Rev. D. D., Curate of St. Ann's—6 copies.
Evans, Rev. Daniel, Vicar of Corris—2 copies.
Evans, Rev. John, Vicar of Llandovery.
Evans, Rev. Daniel, Vicarage, Bangor—2 copies.
Evans, Mr. Daniel, Gefnen.
Evans, Mr. William, Llwybr Main.
Evans, Mr. Evan, Bontuchaf.
Evans, Miss Grace, Coedypark.
Evans, Mrs. Jane, Boddesi.
Evans, Mr. Thomas, Pena'rbronydd.
Evans, Mr. Edward, Mynydd Llandegai.
Evans, Mr Evan, Coedypark.
Evans, Mr. Robert, Royal Oak, 'Rachub.
Edmund, Rev. William, Head-Master of the Grammar School, S.D.C.—2 copies.
Edwards, Rev. Ebenezer, B.D., Rector of Llanfechell—6 copies.
Edwards, E., Esq., Penrhyn Hospital.
Edwards, Rev. Henry T., B.A., Vicar of Carnarvon—2 copies.
Edwards, Rev. H. G., Llandinorwig.
Edwards, Mr. Evan, Bethel.
Edwards, Mr. John, Barber, Bethesda.
Ellis, Rev. Ph. C., M.A., Llanfairfechan—5 copies.
Ellis, Mr. William, Caellwyngrydd.
Ellis, Mr. John, Rhiwlas.
Ellis, Mr Richard M., Llandegai.
Ellis, Mr. John, Draper, Bethesda.
Ellis, Mr. David, Cilgeraint.

Francis, John, Esq., Brynderwen—5 copies.
Fison, Miss Anna, Cambridge—2 copies.

Griffiths, Rev. John, M.A., Rector of Merthyr—5 copies.
Griffiths, Rev. Joseph W., M.A., Bettws-y-coed—6 copies.
Griffiths, Rev. Richard, M.A., Llangadwaladr—3 copies.
Griffiths, Rev. John, Vicarage, Neath.
Griffiths, Rev. John, D.D., Vicar of Llandeilo—2 copies.
Griffiths, Mr. William, Cilfodan.
Griffiths, Mr. Hugh, Carregygath.
Griffiths, Mr. John, Cilfodan.
Griffiths, Mr. Griffith, Fair View.
Griffiths, Mr. William, Ty'nclawdd.

Griffiths, Mr. David, Garneddwen.
Griffiths, Mr. Robert, Cilfodan.
Griffiths, Mr. Ellis, Gerlan.
Griffiths, Mr. John, Gors.
Griffiths, Mr. Owen, Gerlan.
Goodman, Mr. G., chemist, Bethesda.
Glynn, Mr. William, Bethesda.

Hughes, Rev. Joseph, B.A., Professor of Welsh, S. D. College—6 copies.
Hughes, Rev. E. O., M.A., Rector of Llanddeiniolen—2 copies.
Hughes, Rev. John, Vicar of Pont Lottyn—3 copies.
Hughes, Rev. Edward, Curate of Capel Curig.
Hughes, Dr. Hugh, Bethesda.
Hughes, Mr. John, 'Rhirdir—12 copies.
Hughes, Mr. Charles, Bethesda.
Hughes, Mr. Hugh, Aber.
Hughes, Mr. William, Bethesda.
Hughes, Mr. W., Caellwyngrydd.
Hughes, Mr. Richard, Penlan.
Hughes, Mr. Daniel, Tregarth.
Hughes, Mr. Thomas, Bethesda.
Hughes, Mr. Henry, Pantylon—2 copies.
Hughes, Mr. Robert, 'Rhirdir—6 copies.
Hughes, Mr. Roger, Lleiniau.
Hughes, Mr. John, Sling.
Hughes, Mr. Owen, 'Rhirdir.
Hughes, Mr. T., Relieving Officer, Bethesda.
Hughes, Mr. William, Pork Shop.
Hughes, Mr. Hugh, Pena'rbronydd.
Hughes, Mr. H. Derfel, Pen Dinas—2 copies.
Hughes, Mr. Owen, Braich.
Hughes, Mr. E. M., Llandegai.
Hughes, Mr. Hugh, Tanrhiw.
Hughes, Mr. Robert, Carneddi.
Hughes, Mr. Thomas, Gelli.
Hughes, Mr. Thomas, Carneddi.
Hughes, Mr. Richard, Ogwen Terrace.
Hughes, Mr. Richard, Coedypark.
Hughes, Mr. G., grocer, 'Rachub.
Hughes, Mr. J., Caellwyngrydd.
Heaton, Rev. H. E., Bettws Vicarage, Abergele—3 copies.
Humphreys, Edward, Esq., Royal Hotel, Carnarvon, 5 copies.
Humphreys, Mr. Robert, keeper, Cochwillan.
Howel, Rev. D., (*Llawdden*), Vicar of Cardiff—3 copies.
Harries, Mr. D., (*Caeronwy*), Llandeilofawr—2 copies

**Isaac**, Rev. D. Lloyd, Vicar of Llangamerch.

Jones, Venerable Archdeacon Wynne, Bodedern—4 copies.
Jones, Rev. R. Harries, M.A., (*Quellyn*), Llanidloes—4 copies.
Jones, Rev. John, (*Idrisyn*) Llandysiliogogo—3 copies.
Jones, Rev. Owen, Rector of Pentrevoelas—3 copies.
Jones, Rev. Latimer M., B.D., Vicar of Carmarthen—3 copies.
Jones, Rev. D., B.A., Curate of Gelli, Tregarth—3 copies.
Jones, Rev. D., B.A., Curate of Llanllechid—3 copies.
Jones, Rev. John, M.A., Head Master of Grammar School, Ystradmeurig—3 copies.
Jones, Rev. Canon, M.A., Llanrwst—2 copies.
Jones, Rev. Buckley O., M.A., Warden of Ruthin—3 copies.
Jones, Rev. Thomas, B.A., Rector of Llanengan—2 copies.
Jones, Rev. Peter, Rector of Llanddona.
Jones, Rev. Samuel, Middle Granville, U.S.—6 copies.
Jones, Mr. R. I., Publisher, Tremadoc—12 copies.
Jones, Mr. John, (*Tanyfronllwyd*), Middle Granville, U.S.—50 copies.
Jones, Eleazer, Esq., U.S.
Jones, Mr G., National School, Llanrwst—2 copies.
Jones, Mr. T., draper, Bethesda.
Jones, Mr. D. John, Bryn Eglwys.
Jones, Mr. Morris, Bronydd.
Jones, Mr. David, Bryneglwys.
Jones, Mr. Thomas, 'Rhiwlas.
Jones, Mr. Thomas, Rhydygroes.
Jones, Mr. John, Felin Hen.
Jones, Mr. Richard, Y Coed.
Jones, Mr. W., Dol Ddafydd.
Jones, Mr. Robert, Cilgeraint.
Jones, Mr. Daniel, (tad y bardd)—2 copies.
Jones, Mr. Griffith, Birmingham House.
Jones, Mr. John, Dolgoch.
Jones, Mr. Ellis, Trosyrafon.
Jones, Mr. Robert, Tregarth.
Jones, Mr Hugh, 'Rhen Bark.
Jones, Mr. J., Bryngwalchmai.
Jones, Mr. Rowland, Gefnan.
Jones, Mr. Hugh, Craigypandy.
Jones, Mr. John, Ty'nymaes.
Jones, Mr. Percivel, Bethesda.
Jones, Mrs., Ogwen Terrace.
Jones, Mr. William, stonemason—2 copies.
Jones, Mr. W. M., Braichmelyn.
Jones, Mr. Richard, Ty'nymaes.

Jones, Mr. William, Gerlan.
Jones, Mr. J., bookseller, Bethesda—2 copies.
Jones, Mr. John, Bryn Eglwys.
Jones, Mr. Joseph, Coedypark—50 copies.
Jones, Mr. Hugh, Carmel.
Jones, Mr. Robert, Glanmeurig.
Jones, Mr. D., Mona, Bethesda.
Jones, Mr. William, Tan'rhirdir.
Jones, Mr. John, Ty'nyclawdd.
Jones, Mr. Hugh, Highway Surveyor—3 copies.
Jones, Mr. William, Chwarel Goch.
Jones, Mr. Daniel, Brynllys.
Jones, Mr. William, Tregarth.
Jones, Mr. Richard, Mynydd.
Jones, Mr. John, Pendinas.
Jones, Mr. John, Ffynonbach.
Jones, Mr. John, Penygroes.
Jones, Mr. W., Rhiwlas.
Jones, Mr. William, Bodfeirig
Jones, Mr. William, Bethesda.
Jones, Mr. David, slater.
Jones, Mr. Thomas, Tygwyn.
Jones, Mr. William, Coedypark.
Jones, Mr. William, Cefnybryniau.
Jones, Mr. David, Coedypark.
Jones, Mr. William, Rhiwlas.
Jones, Mr. Eleazer, painter.
Jones, Mr. D. Ogwen, Coedypark—3 copies.
Jones, Mr. John, Pentir.
Jones, Mr. Rowland, Trosyrafon.
Jones, Mr. William, Lon Goch.
Jones, Mr. William, Penygroes.
Jones, Mr. Thomas, Coedypark.
Jones, Mr. Richard, Tanybwlch.
Jones, Mr John, Maes Caradoc.
Jones, Mrs, Margaret, Craigypandy.
Jones, Mr. John, Chwarel Goch.
Jones, Mr. John, Rhydygroes.
Jones, Mr. John, Coedypark.
James, Rev. John, B.D., Welsh Church, Liverpool—2 copies
Jackson, Rev. J. Arthur, Curate of Lampeter.
Jenkins, Rev. Canon, M.A., Llahgyniw—2 copies.
Jenkins, Rev. John, Curate of Glanogwen.

Killin, Rev. R., Rector of Maentwrog—2 copies.

Lewis, Rev. Evan, M.A., Rector of Dolgelley—6 copies.

Llewelyn, Rev. John Cleeves, Vicar of Treverthin, Pontypool—3 copies
Lewis, Mr. Owen, Hall.
Lewis, Mr Hugh, Penybryn.
Lewis, Mr. Robert, Bethesda.
Lewis, Mr. R., Penybryn.
Lewis, Mr. John, Trosyffordd.
Lewis, Mr Henry, Gonglddrain.
Lloyd, Rev. W., Rector of Yspytty Ifan.

Morris, Robert, Esq., Brynllwyd, Penrhyn Quarry—5 copies.
Morris, Rev. J., Vicar of Llanallgo.
Morris, Mr. John, Cae Erfin.
Morris, Mr. Hugh, 'Rynys.
Morris, Mr. Robert, Braichmelyn.
Morgan, Rev. H., M.A., Vicarage, Rhyl—5 copies.
Morgan, Rev. William, M.A., Llandegai—5 copies.
Morgan, Rev. John, Glan Ogwen—5 copies.
Morgan, Rev. John, Portmadoc—2 copies.
Morgan, Rev. David, Festiniog.
Morgan, Mr. John, Tregarth.
Morgan, Mr. Edward, Tregarth.
Meredith, Rev. T., B.A., Rector of Newborough.—6 cop

North, Venerable Archdeacon, Neath, Cardigan—3 copies.

Owen, Rev. W. Hicks, M.A., Vicar of St. Asaph—2 cop ies.
Owen, Rev. E. Tudor, M.A., Rector of Rhyl—2 copies.
Owens, Mr., National School, Glanogwen.
Owens, Mr., National School, Llanllechid.
Owens, Mr., Port Penrhyn.
Owens, Mr., Thomas, Bethesda.
Owens, Mr., Robert, Caellwyngrydd.
Owens, Mr. John, Brynllys.
Owens, Mr. Richard, Caellwyngrydd.
Owens, Mr. John, stonemason.
Owens, Mr. William, Pontygwyn.
Oliver, Mr. William, Mynydd.
Oliver, Mr. E., Llwybrmain.

Parry, Rev. H., B.D., Rector of Llanfairisgaer—3 copies.
Parry. Rev. E., Criccieth.
Parry, Mr. W., clerk, St. Ann's.
Parry, Mr. Hugh, Caellwyngrydd.
Parry, Mr. William, Brynllys.

Parry, Mr. Richard, Plasuchaf.
Parry, Mr. William, Bryn Eglwys.
Parry, Mr. William, Coedypark.
Parry, Mr Daniel, Bryn Eglwys.
Parry, Mr Thomas, Ocker—6 copies.
Phillips, Rev. E. Owen, M.A., Vicarage, Aberystwith—2 copies.
Price, John, Esq., Royal Hotel, Capel Curig—5 copies.
Price, Rev. John, M.A., Bangor.
Pugh, Rev. David, Curate of Llanrwst.
Prichard, Rev. John, Vicar of Capel Garmon—2 copies.
Prichard, Mr. Griffith, Braichmelyn.
Prichard, Mr. H. W., Caregygath.
Prichard, Mr. John, Craig-y-Pandy.
Prichard, Mr. W. Caellwyngrydd.
Prichard, Mr. William, Tanyfoel.
Prichard, Mr. Thomas, Perthi.
Prichard, Mr. John, Bryniau.
Prichard, Mr. Owen, Tanyfoel.
Prichard, Mr. Richard, Hafoty.
Prichard, Mr. T., Grocer, Bethesda.
Prichard, Mr. John, Llangoed.
Prichard, Mr. W., Hendurnpike.
Prichard, Mr. Owen, Cororion.
Prichard, Mr. William, Tregarth.
Prichard, Mr. J., Braichmelyn.
Prichard, Mr. John, St. Ann's.
Prichard, Mr. R. T., Braichmelyn.

Roberts, Hamilton, A., Esq., Bryn Meirig—5 copies.
Roberts, Goronwy O., Esq., Architect, Llandegai—5 copies.
Roberts, Rev. Ellis, (*Elis Wynn o Wyrfai*)—2 copies.
Roberts, Rev. H., Vicar of Gwernfield, Mold.
Roberts, Mr. J. J., Braichmelyn.
Roberts, Mr. William, Tycerig.
Roberts, Mr. William, Wern.
Roberts, Mr. Robert, Graiglwyd.
Roberts, Mr. Richard, Bryneglwys.
Roberts, Mr. John, Llanllechid—6 copies.
Roberts, Mr. Richard, Braichmelyn—6 copies.
Roberts, Mr. Richard, Waen Wen.
Roberts, Mr. Richard, 'Rallt.
Roberts, Mr. John, Jerusalem.
Roberts, Mr. Hugh, Caellwyngrydd.
Roberts, Mr. Owen, Gerlan—2 copies.
Roberts, Mr. John, Pant Dreiniog.

Roberts, Mr. Hugh, Rhiwlas.
Roberts, Mr. J., Caellwyngrydd.
Roberts, Mr. Henry, Gefnan.
Roberts, Mr. John, Glanmeirig.
Roberts, Mr. William, Cae'rberllan.
Roberts, Mr. William, Coedypark.
Roberts, Mr. Morris, Gelli.
Roberts, Mr. William, Pont Ty-gwyn.
Roberts, Mr. Hugh, Braich.
Roberts, Mr. David, Talybont—3 copies.
Roberts, Mr. John, Pant Hwfa.
Roberts, Mr. Griffith, Penybryn.
Roberts, Mr. W., Pont Uchaf.
Roberts, Mr. D., (*Alawydd*), Tai Duon.
Roberts, Mr. R., Llanfairfechan.
Roberts, Mr. Robert, Brynllwyd.
Rowlands, Rev. James, Rector of Bottwnog—4 copies.
Rowlands, Mr. W., Tanygadlas.
Rowlands, Mr. G., (*Asaph*), Grisiaucochion.
Rowlands, Mr. John, Tanygadlas.
Bobinson, Mr., tailor, Bangor.

Smart, Rev. Edward, M.A., Henllan Rectory, Rhyl—3 copies.
Stephen, Rev. Edward, Tanymarian.
Spurrell, Mr. William, Carmarthen.

Thomas, Rev. D. W., M.A., St. Ann's—6 copies.
Thomas, Rev. Canon, M.A., Canonry, Bangor—3 copies.
Thomas, Rev. Moses, Curate of Llanrug—20 copies.
Thomas, Mr. Evan, organist, St. Ann's.
Thomas, Mr. Owen, cabinet maker, Bangor.
Thomas, Mr. Thomas, organist, Llandegai.
Thomas, Mr. John, Pant Dreiniog.
Thomas, Mr. Robert, Rhiwlas.
Thomas, Mr. John, Llwybrmain.
Thomas, Mr. John, Penygroes.
Thomas, Mr. John, Plas Pentir.
Thomas, Mr. Owen, Glanrafon.
Thomas, Mr. John, Bethesda.
Thomas, Mr. Evan, Derwendeg.
Thomas, Mrs., Ship Inn, Bethesda.
Thomas, Mr. Henry, Bryn Eglwys.
Thomas, Mr. Robert, Llwybrmain.
Thomas, Mr. Rees, Wern.
Thomas, Mr. William, Carneddi.
Thomas, Mr. Daniel, Derwendeg—8 copies.

Thomas, Mr. Rees, Bethesda.
Thomas, Mr. William, Ty'nyclwt.
Thomas, Mr. William, Coedypark.
Thomas, Mr. Enoch, clerk, Llanllechid.

Williams, Rev. C., D.D., Principal of Jesus College, Oxford—2 copies.
Williams, Rev. Robert, M.A., Rector of Llanfaelog—5 copies.
Williams, Rev. John, M.A., Rector of Beaumaris—5 copies.
Williams, Rev. T. Jones, M.A., Llanfaethlu, Holyhead—5 copies
Williams, Rev. John, Dafen, Llanelly—5 copies.
Williams, Rev. R. Bayley, Rector of Llanrug.
Williams, Rev. Canon Wynne, M.A., Menaifron—3 copies.
Williams, Rev. E. Osborne, Vicar of Pwllheli—2 copies.
Williams, Rev. Canon D., Bournemouth—2 copies.
Williams, Rev. T. N., Rector of Aber—2 copies.
Williams, Rev. John, (*Glanmor*), Amlwch.
Williams, Rev. D., B.D., Vicar of Llanelli—2 copies.
Williams, Rev. H. E.. Dolwyddelen.
Williams, Rev. T., M.A., St. George, Abergele, 3 Copies.
Williams, Richard, Esq., Chapman Ville, U.S.—6 copies.
Williams, Mr. John, Penlan—3 copies.
Williams, Mr. R., (*Trebor Mai*), Llanrwst.
Williams, Mr. Thomas, Bryn Eglwys—12 copies.
Williams, Mr. John, (*Heilyn*), Llanllechid—6 copies.
Williams, Mr. William, Bodfeirig.
Williams, Mr. Henry, (*Alaw Llechid*), Penybryn.
Williams, Mr. J., butcher, Ogwen Terrace—2 copies.
Williams, Mr. John, Ogwen Brewhouse.
Williams, Mr. Robert, Bryn Eglwys.
Williams, Mr. William, Penybryn.
Williams, Mr. Evan, Coedypark.
Williams, Mr. John, Tyn'clwt.
Williams, Mr. Henry, Braichmelyn.
Williams, Mr. R., Caellwyngrydd.
Williams, Mr. Richard, Graiglwyd.
Williams, Mr. William, Penybryn.
Williams, Mr. John, Tynycoed.
Williams, Mr. William, Tynyffrith.
Williams, Mr. John, Pant Dreiniog.
Williams, Mr. Thomas, Wellington Vaults.
Williams, Mr. Robert, Coedypark.
Williams, Mr. Richard, Pant Dreiniog.
Williams, Mr. Robert, Ty'nclwt.
Williams, Mr. John, Bont Uchaf.

Williams, Mr. Richard, Braich.
Williams, Mr. Hugh, Cilfodan.
Williams, Mr. William, Ogwen Brewhouse.
Williams, Mr. Ebenezer, Gerlan.
Williams, Mr. Hugh, Penybryn.
Williams, Mr. John, Ty'ntwr.
Williams, Mr. Elias Ph., Queen's Head, Bethesda—2 copies.
Williams, Mr. Richard, Brynglas.
Williams, Mr. Benjamin, Tyddyn Dicwm.
Williams, Mr. John, Tan'rhirdir.
Williams, Mr. Elias, Penybryn.
Williams, Mr. Thomas, Taiduon.
Williams, Mr. William, Penybryn.
Williams, Mr. Thomas, Hen Gapel.
Williams, Mr. Robert, Rhiwlas.
Williams, Mr. John, Mynydd Llandegai.
Williams, Mr. John, Carneddi.
Williams, Mr. Thomas, Bethesda.
Williams, Mr. John, Churchwarden, Llanllechid.

J. K. DOUGLAS, AGER-ARGRAFFYDD, BANGOR.